~ www.ecorwyddfa.co.uk ~

# ECO'r Wyddfa

Dilynwch ni ar facebook
www.ecorwyddfa.co.uk

Rhif: 474 Mawrth 2019 Pris: 70c




# Pwy ydi'r canwr?

Wel, Rhys Meirion, wrth gwrs. Ond mewn gwisg cigydd? Be'n union sy'n digwydd? Darllenwch ymlaen....

Mae Corau Rhys Meirion yn gyfres newydd sbon fydd yn cael ei darlledu ar S4C ym mis Ebrill. Yn y gyfres hon mae Rhys yn mynd ati i ffurfio corau o'r newydd er mwyn asesu'r effaith cadarnhaol y gall canu corawl ei gael ar iechyd a lles cyffredinol unigolion.

A daeth criw Cwmni Da draw i Siop Cigydd Wavell's yn Llanrug er mwyn ffilmio un o'r cigyddion wrth ei waith. Pa un ohonynt felly sy'n ymuno â Rhys i ganu mewn côr?

Mae'r ail yn y gyfres Corau Rhys Meirion yn canolbwyntio ar gyn-filwyr. Mae Rhys wedi ffurfio côr newydd trwy wahodd criw o gyn-filwyr i ymuno â chôr adnabyddus Meibion Machynlleth o dan arweiniad eu harweinydd, Aled Myrddin. Bydd y rhaglen yn edrych ar y modd y mae corau meibion yn gallu cynnig yr elfen hynny o frawdgarwch a chwmnïaeth rhwng dynion sydd yn cael ei golli wedi gadael y fyddin.

A Carl Williams, sy'n gweithio yn y siop yn Llanrug fydd yn ymuno â'r côr. Treuliodd Carl ddwy flynedd ar hugain yn y fyddin, wedi iddo ymuno ym 1995 yn ddeunaw oed. Mae testun y rhaglen yn agos iawn at galon Carl gan ei fod wedi ffurfio Côr tra'r oedd allan yn Afghanistan ac yn gredwr cryf mewn gallu cerddoriaeth i leddfu.

Gwyliwch y rhaglen ym mis Ebrill i gael mwy o'r hanes – ac i gael gweld hefyd pa mor llwyddiannus oedd Rhys Meirion fel cigydd.

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >

ECO'r Wyddfa

CYMRAEG

**RHIF 474**
**Mawrth 2019**
Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Straeon ac erthyglau ar e-bost i Dafydd Whiteside Thomas Bron y Nant, Llanrug 01286 673515 ecorwyddfa@gmail.com**

**CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH**
Tony Elliott, Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU 07798552238
tonyelliott17@yahoo.com

**GOLYGYDD CHWARAEON**
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115

**GOLYGYDD YR IFANC**
Marged Rhys
marged_3@hotmail.com

**FFOTOGRAFFWR**
Gwyndaf Hughes, Hafan, Llanrug (672221)
glasgoed@hotmail.com

**TREFNYDD HYSBYSEBION**
Rhian Elin George, Swn yr Engan, Brynrefail (01286) 872306
ebost hysbysebioneco@yahoo.co.uk

**TREFNYDD ARIANNOL**
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD GWERTHIANT POST**
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (01286 674839)

**TREFNYDD BWNDELU**
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

**TREFNYDD DOSBARTHU**
Hefin Jones, Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838

**GOHEBWYR PENTREFI**

**DEINIOLEN:** Nia Gruffudd (872133)
**BETHEL:** Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. (01248) 670115
**BRYNREFAIL:** Mrs Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed (870580)
**CAEATHRO:** Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen. lowriceiriog@hotmail.co.uk
**CEUNANT:** Trystan a Sioned Larsen, Bodafon, Ceunant (650799)
**CWM-Y-GLO:**
**DINORWIG:** Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)
**LLANBERIS:** Eifion Roberts, Swn-y-Gwynt (870740)
**LLANRUG:** Eryl Roberts, Peris, 56 Glanffynnon (675384)
**NANT PERIS:** Kate Pritchard (872331) neu econantperis@hotmail.com
**PENISARWAUN:** Katie Williams, Ty'n Waen, Penisa'r-waun Ffôn 01248 671 622 ecopenisarwaun@hotmail.co.uk
**WAUNFAWR:** Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr (650570)

## DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO 2018

| Rhifyn | Copi i law | Bwndelu | Ble |
|---|---|---|---|
| Mawrth | Sul 17 Chwefror | Gwener 1 Mawrth | Llanrug |
| Ebrill | Sul 17 Mawrth | Gwener 29 Mawrth | Llanrug |
| Mai | Sul 21 Ebrill | Gwener 3 Mai | Llanrug |

## LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd,

**Prisiau parcio yn Llanberis**

Roedd gennyf ryw awr i'w sbario yn Llanberis yr wythnos ddiwethaf. Penderfynais y buaswn yn hoffi ymweld â Chastell Dolbadarn. Dilynais yr arwyddion hyd at y maes parcio gyferbyn â'r castell (ar y ffordd tua'r Amgueddfa Lechi). Yr oedd y maes parcio enfawr yno yn hollol wag. Euthum at y peiriant prynu tocyn parcio gan dybio mai £1 fyddai'r gost (fel wrth Lyn Padarn). Sioc oedd gweld bod disgwyl i mi dalu £4 dim ond i barcio am tua hanner awr er mwyn gweld y castell. Wrth gwrs, gyrrais i ffwrdd. Cyn mynd, fodd bynnag, sylwais fod tri neu bedwar car arall yn gwneud yn union yr un peth a mi - dreifio ymaith wedi gweld y pris!

Gyrrais i lawr at yr Amgueddfa gan feddwl y byddwn yn cael parcio yno am ddim, a bwriadu cerdded yn ôl at y castell. Sioc arall! Roedd angen talu £4 i stopio yno hefyd!

Yn naturiol, troais fy nghefn ar Lanberis, a gyrru i Ben llyn i fwynhau'r olygfa yno am ddim.

Wedyn, meddyliais, bod llawer iawn o bobl fel fi yn gwrthod talu £4 gefn gaeaf oer i fwynhau mwynderau Llanberis am ryw awr neu ddwy. Efallai bod £4 yn gost digon rhesymol am barcio am ddiwrnod cyfan - ond am hanner awr! Does ryfedd bod y maes parcio yn hollol wag. Oni fyddai'n llawer callach i Gyngor Gwynedd gynnig llefydd parcio llawer iawn rhatach na £4 tu allan i'r tymor gwyliau i ddenu pobl fel hyn i Lanberis. A gadael i bobl dalu ar y ffordd allan o'r maes parcio, yn ôl faint o amser y buont yno.

Yr eiddoch yn gywir,
Dafydd Roberts, Rhiwlas

---

Annwyl Olygydd

**Plas Pengwaith Llanberis**

Carwn anfon cyfarchion cynhesaf at dair ffrind sydd yn y Cartref ar hyn o bryd, ac yn wreiddiol o Lanberis..

Gwyneth Jones. Bûm yn stiwdant nyrsio efo hi yn y 50degau. Aeth Gwyneth ymlaen i wneud cyrsiau nyrsio eraill a'r olaf oedd Oncology, lle bu yn Uwch Swyddog Nyrsio yn y Royal Marsden yn Llundain hyd ei hymddeoliad. Dyma englyn i Gwyneth gan glaf yn Ward Anne, Ysbyty Môn ac Arfon, pan oedd hi'n Staff Nurse yno yn y pumdegau cynnar:

Ein Gwyneth deg a heini - yn barod
Heb ostwng nag oedi,
Yn selog, sydd yn sylwi
Ar un distaw fel myfi.

Mary Alltwen Jones, chwaer Gwyneth Jones, oedd yn Swyddog Cymdeithasol yn Ysbyty Dewi Sant ac yn y gymuned. Roedd parch mawr iddi gan ei chydweithwyr, meddygon a theuluoedd y rhai roedd yn eu cynorthwyo.

Anne Parry Jones. Cefais bleser mawr o gydweithio gyda hi ar y Cwrs Arholi Meithrin Cenedlaethol yn y Coleg Technegol Bangor o 1981 nes iddi ymddeol ym 1991. Cawsom amser difyr iawn ar y cwrs a chael myfyrwyr cydwybodol a llwyddiannus. Cofion cynnes iawn atynt a gobeithio cael galw eto yn fuan.

Jean Hughes
Lleifior, 10 Bryn Bras, Llanfairpwll LL61 5PX

---

Annwyl Ddarllenwyr,

Dyma gysylltu fel Cymdeithas John Gwilym Jones, cymdeithas lên Prifysgol Bangor yn eich hysbysebu o'n cynhyrchiad blynyddol. Bydd un o ddramâu John Gwilym Jones ei hun, Ac Eto Nid Myfi, yn cael ei llwyfanu yn Stiwdio Pontio am 7:00yh ar y 15fed o Fawrth eleni. Mae tocynnau'n £5 i'w cael gan Pontio drwy ffonio neu ar y we. Byddai'n wych eich croesawu atom!

## RHODDION

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru**

£100: Di-enw, Llanberis

£50 : Er cof am Eryl Ogwen Roberts, gan Gwilym a Mary Roberts a'r teulu, Nant Peris

£5 : Mrs Glenys Owen, Bwthyn Isaf, Deiniolen; Di-enw, Llanberis; Er cof am Donald Fraser, 6 Maes Padarn, Llanberis.

Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn recordio a chynhyrchu ystod eang o Lyfrau Llafar sydd ar gael yn eich llyfrgelloedd lleol.

Y llyfrau diweddaraf ar gyfer plant a phobol ifanc a recordiwyd yw'r canlynol. Gellir eu benthyca yn rhad ac am ddim trwy gysylltu a'ch llyfrgell leol.

1.DOSBARTH MISS PRYDDERCH – LLYFR 2 : SILFF Y SARFF (Mererid Hopwood)

2.DERI DAN Y DALIWR DREIGIAU (Haf Llewelyn)

3.CYFRES MAES Y MES – Dwy stori gan Nia Gruffydd : BRIALLEN A BRECH Y MÊL a BRWYNWEN A'R ADERYN ANFERTH

4.HUFEN AFIACH (Meilyr Siôn)

# Cofio'r Cau a chasglu enwau



*Rhan o'rgynulleidfa a fu'n gorlenwi y ddwy ystafell yn yr Amgueddfa.*



*Arwyn Roberts (Llanrug gynt), cyn-chwarelwr, a Selwyn Allsup, Llanberis, uwchben un o'r mapiau yn trafod enwau'r ponciau.*

Aeth hanner can mlynedd heibio ers cau Chwarel Dinorwig, ac i gofio'r digwyddiad mae'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis yn trefnu nifer o ddigwyddiadau yn ystod y misoedd i ddod (mwy o fanylion i ddilyn). Ganol fis Chwefror trefnwyd digwyddiad ar y cyd rhwng yr Amgueddfa, Cynllun Cerdded a Darganfod (Menter Fachwen) a Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru. Dangoswyd dwy ffilm – 'Ffarwel Roc' a 'End of the Line' , a'r 'sinema' yn orlawn ar bob dangosiad! Roedd cyfle hefyd i weld degau ar ddegau o hen luniau a hel atgofion. Gan fanteisio ar yr holl bobl a fu'n mynychu'r digwyddiad fore a phnawn, ceisiwyd casglu'r holl enwau oedd yn gysylltiedig â'r chwarel, a'u lleoli – y ponciau, lefelau, llwybrau a sinciau; enwau sy'n brysur fynd ar ddifancoll neu'n cael eu disodli ag enwau Saesneg gan ddringwyr.

Paratowyd copiau o fapiau Ordnans o wahanol flynyddoedd yn dangos y newidiadau o fewn y chwarel: inclêns yn cael eu symud, ponciau a lefelau newydd yn cael eu hagor, siediau'n cael eu codi, ac yn y blaen. Cafwyd amryw i ddadl hwyliog ynglŷn â ble'n union roedd ambell enw'n ffitio ar y map!

I'r rhai ohonoch na chafodd gyfle i fynychu'r digwyddiad, bydd y mapiau ar gael i'w hastudio yn siop Menter Fachwen, Llanberis, ac y mae croeso i unrhyw un fynd yno i ychwanegu enwau ar y mapiau.

Ac i'r rhai ohonoch sy'n rhy ifanc i gofio'r chwarel yn gweithio, darllenwch gyfrolau gwerthfawr y diweddar Emyr Jones – 'Canrif y Chwarelwr' a 'Bargen Dinorwig'. Ynddynt ceir rhestr gyflawn o enwau cysylltiedig â'r chwarel. Yn anffodus, nid yw yntau chwaith yn eu lleoli. Ond y mae'r gwaith hwnnw yn mynd rhagddo, a byddai'r sefydliadau uchod yn hynod falch pe gallech ychwanegu at y wybodaeth. Felly ewch draw i siop Menter Fachwen...

# Yn ystod y mis aeth heibio....

- Er fod y penderfyniad wedi ei wneud ers fis Medi y llynedd, sef dechrau blwyddyn ysgol, daeth y newyddion yn ddiweddar fod yr Urdd wedi gwahardd bechgyn rhag cymryd rhan mewn cystadleuthau pêl-rwyd i ysgolion cynradd. Tybed a achosodd hyn unrhyw broblemau i ysgolion y fro?
- Ac o son am chwaraeon, mae'n fwyfwy amlwg fod llai a llai o sylw dyddiol yn cael ei roi yn Dail y Post i unrhyw fath o chwaraeon sy'n ymwneud â gogledd Cymru, tra bo tudalennau llawn lliw o fynd a dod clybiau pel-droed Manceinion a Lerpwl hyd at syrffed. Lle well felly i gael hanes hynt a helynt holl chwaraeon y fro nac yn yr "Eco" ? Cysylltwch efo'r Golygydd Chwaraeon!
- Fel roedd y rhifyn hwn ar fin mynd i'r Wasg roedd cyfarfod cyhoeddus yn cael ei gynnal yn Eglwys Sant Padarn, Llanberis i geisio achub yr eglwys rhag cael ei chau. Gobeithiwn roi mwy o wybodaeth yn rhifyn Ebrill.
- Daeth y newyddion syfrdanol fod Rwsia a Gogledd Korea wedi ymosod ar sustemau cyfrifiadurol Cyngor Ynys Mon. "Sgersli bilîf", chwedl Ifans y Tryc gynt.
- Ganol fis Chwefror cafwyd tywydd anarferol o gynnes. Roedd y tymheredd ym mro'r "Eco" yn 15 gradd, ond eto, cyndyn iawn oedd olion eira ddechrau'r mis o ddadmeru ar y copaon.
- Mae'r "Radioactive Waste Management Limited" ar ran y Llywodraeth, yn chwilio am safleoedd yng Nghymru sy'n fodlon derbyn gwastraff niwcliar i'w gladdu, ac yn cynnig cymhelliant ariannol i gynghorau fel abwyd. Mae cyfarfod wedi ei drefnu ganddynt yn Llandudno ganol fis Mawrth, ac un arall i ddilyn yn Abertawe. Oes angen dweud y dylai pob cymuned a chyngor drwy Gymru ben-baladr wrthod y fath syniad?
- Mae'r corff cadwriaethol 'Wilder Britain' yn trafod gyda ffermwyr am y posibilrwydd o ail-gyflwyno eryrod yn ôl i Gymru. Mae'r corff yn gobeithio gwneud cais am drwydded i Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Gorffennaf i ryddhau'r eryrod; o bosib yn yr hydref, ond yn fwyaf tebygol, yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.
- Dylai'r holl fwydydd sy'n cael eu cynhyrchu yng ngwledydd Prydain gael eu labelu efo baner Jac yr Undeb yn dilyn Brexit; hynny er mwyn hyrwyddo annibyniaeth Prydain Vawr a hybu masnachu efo gwledydd eraill. Ond nid pawb sy'n credu y byddai hynny'n llwyddiant. Mae'n ymddangos fod y 'brand Prydeinig' yn eithaf poblogaidd mewn gwledydd fel China a'r India, ond fod y Ddraig Goch yn llawer mwy poblogaidd wrth hyrwyddo cig Cymru – yn Ewrop!
- Ac o son am Brexit (eto!), mae'r trên heb frecs yn dal i ruthro ar hyd y cledrau tuag at Orsaf Afallon Brydeinig na fu ac na fydd, gyda'r dreifar May yn parhau i wrthod gwrando ar holl fonllefau gwahanol y teithwyr yn ei gofal. Disgwylir y Ddamwain Fawr ddiwedd fis Mawrth.
- ..... ac fel roedd yr "Eco" ar fin mynd i'r wasg ymddiswyddodd saith Aelod Seneddol o'r Blaid Lafur i ffurfio Grwp Annibynnol. Fe'u dilynwyd gan aelod arall o'r un blaid a thair Aelod Seneddol o'r Blaid Geidwadol. A'r tebygolrwydd yw y bydd mwy wedi ymuno erbyn i chi ddarllen hyn o sylwadau.

## Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen



Mae nifer fawr o ddigwyddiadau cyffrous wedi digwydd yn ystod hanner tymor cyntaf y Gwanwyn yn Ysgol Gwaun Gynfi!

### Dathlu Diwrnod Santes Dwynen

Dathlodd y disgyblion Ddiwrnod Santes Dwynwen gyda disgo yn Neuadd yr ysgol. Am hwyl oedd cael dawnsio a chanu gyda'u ffrindiau! A chŵn poeth blasus i'w mwynhau! Diolch i Miss Linda am fod yn DJ ardderchog a llongyfarchiadau i Megan, Glesni ac Alys am ddod yn gyntaf yn y eu dosbarthiadau yn y gystadleuaeth dylunio cerdyn.









### Ymweliad â Storiel

Bu disgyblion blwyddyn 1 a 2 yn nosbarth Mrs Warrington ar ymweliad i Storiel ble y cawsant ail-fyw cyfnod oes Fictoria. Daethant oddi yno yn llawn gwybodaeth newydd am wisg y cyfnod, sut roedden nhw'n golchi a beth roeddynt yn fwyta.







### Hybu'r Gymraeg

Ar y 1af o Chwefror, daeth y disgyblion i'r ysgol yn gwisgo dillad coch i gynrychioli Cymru cyn y gêm rygbi rhwng Ffrainc a Chymru. Roedd yn gyfle i'r ysgol hybu'r Gymraeg fel rhan o'r siarter iaith.

### Diogelwch

Bu PC Dylan ar ymweliad i'r ysgol i drafod diogelwch ar y we gyda'r disgyblion.

### Glanllyn

Cafodd blwyddyn 3 a 4 ddau ddiwrnod gwerth chweil yng Nglanllyn! Wrth lwc, arhosodd yr eira i ffwrdd a chawsant lu o brofiadau, o ganŵio i ddringo i gyfeiriannu a chwrs rhaffau. Heb sôn am fwyd blasus a gemau a ffilm gyda'r nos. Gobeithio bod yr athrawon wedi mwynhau cymaint a'r disgyblion!

## *Parhad* DEINIOLEN

**Hoffai'r** Cyng. Elfed Williams ddiolch i Menter Fachwen am roi eu caniatâd i osod diffibrilydd ar ochr adeilad Tŷ Elidir. Hoffai hefyd ddiolch i bawb sydd wedi bod wrthi yn galed er mwyn ceisio ail agor clwb ieuenctid yn y pentref. Mi fydd y Clwb Ieuenctid yn ail agor nos Fawrth, 5ed o Fawrth, rhwng 5 a 7. Cofiwch gefnogi.

**Gŵyl Deiniolen** a'r Cylch Erbyn i chi ddarllen hwn, mi fydd gan yr Ŵyl frenhines newydd ar gyfer y flwyddyn i ddod. Cynhaliwyd y noson i ddewis y frenhines newydd ar Chwefror yr 20fed yn Nhŷ Elidir. Mi fydd yr Ŵyl eleni yn dathlu 10 mlynedd o'i gynnal, llawer o waith a hwyl wedi bod yn ystod y ddegawd a fu heibio a llawer o arian wedi ei godi a'i roi yn ôl i'r gymuned, gobeithio y cawn ni 10fed Gŵyl i'w chofio a thywydd sych!!

**Merched y Wawr, Deiniolen**

Mae arwyddion cynta'r gwanwyn yn ymddangos o'r diwedd, ac mae tymor y gwanwyn cangen Deiniolen o Ferched y Wawr wedi hen ddechrau hefyd. Mae'n teimlo'n bell yn ôl bellach, ond dathlwyd y Nadolig yn gynnar iawn gyda chinio yn y Stablau, Llanwnda, pan ddaeth tua 20 ohonom ynghyd i fwynhau'r cwmni a'r wledd. Diolch i Jackie Jones am drefnu. Parhaodd y tymor gyda noson o 'Frethyn Cartref' ar yr 21ain o Ionawr. Roedd hon yn dipyn o noson 'Which?' pan roddodd Helen Sutherland, Pen Bont, her i'r holl aelodau ar y noson i fod yn banel blasu. Rhannwyd cyfres o nwyddau bwyd o wahanol siopau ac archfarchnadoedd, ac o amrediad o brisiau gwahanol i ni i'w profi yn ddall. O ble'r oedd modd prynu'r bisgedi 'Berffraw mwyaf blasus? Oes 'na well jam na jam cartre' mam? Ai 'the Finest' yw'r gorau neu beidio? Efallai ei bod o werth blasu'r bwydydd 'Value'? Roedd caws coch, catwad /siytni, selsig, porc peis bach a chreision ar y rhestr i'w profi hefyd. Cafwyd ambell syrpreis a dysgasom y gallwn gael ansawdd da am bris llai yn aml iawn. Roedd yn brofiad diddorol iawn ac addysgiadol i bawb.

Yn ein cyfarfod diwethaf, nos Lun y 18fed o Chwefror, cawsom gwmni Keith Jones, Rhiwgoch, Clwt y Bont, a fu'n adrodd ei hanes yn mynd i'r afael â'r her a osododd iddo'i hun i nodi ei ben-blwydd arbennig yn ddiweddar, sef 'Cerdded (Hanner) Can Copa' Cymru. Clywsom hanesion difyr am brofiadau Keith, ym mhob tywydd, yn chwalu ei darged gwreiddiol. Y peth nesaf i edrych ymlaen ato ar y calendr yw ein cinio Gŵyl Ddewi a gaiff ei gynnal naill ai yn Nhŷ Golchi neu yn y Gardd Fôn.

## NANT PERIS

Kate Pritchard (872331)
econantperis@hotmail.com

**Eryl Ogwen Roberts** Dymuna Gwilym, Mary, Eifion, Iona a Graham (cymar Eryl) ddiolch o galon i bawb am bob caredigrwydd ac arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli Eryl, Merch, Chwaer a chymar annwyl a chariadus iawn.

Diolch yn fawr iawn am y rhoddion a dderbyniwyd tuag at ddwy elusen roedd Eryl wedi eu dewis, sef Awyr Las £1,700 a tho Eglwys St Peris, Nant Peris £1,500.

Diolch arbennig hefyd i Dr Gwyn Williams am ei garedigrwydd a'i gymorth yn ystod gwaeledd Eryl a hefyd i staff Meddygfa Llanberis am eu cefnogaeth i Eryl.

Diolch hefyd i Dylan a Jane o Ymgymerwyr E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr a charedig.

## CAEATHRO

Lowri Ceiriog, 4 Erw Wen.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Capel** Gwasanaethau – Ar y 3ydd o Fawrth bydd Gwasanaeth am 2:00pm dan arweiniad y Gweinidog, y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Yn dilyn y Gwasanaeth, bydd Cyfarfod Blynyddol am 3:00pm i aelodau a gwrandawyr. Bydd Cyfarfod y Swyddogion i ddilyn am 3:15pm. Ar 17eg o Fawrth bydd Gwasanaeth am 2:00pm dan arweiniad y Parchedig Ronald Williams.

**Cynhaliaeth Mynwent y Capel** Gyda'r gwanwyn ar y gorwel, daw'n amser eto i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ar diroedd y Capel a'r Fynwent. Mae'r Swyddogion yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar o bob cefnogaeth. Pe byddech yn dymuno cyfrannu, gallwch wneud hynny drwy law'r Trysorydd.

**Llwybrau Cyhoeddus ar Gau** Nodyn i'ch atgoffa fod ambell i lwybr cyhoeddus yn y pentref allan o ddefnydd dros dro. Mae hyn oherwydd gwaith paratoi ar gyfer adeiladu'r ffordd osgoi newydd.

**Gwellhad Buan** Dymunwn wellhad buan i Richard Jones yn dilyn cyfnod o salwch yn ddiweddar.

**Tynfa Misol 1af** (£40) – Rhif 38: John ac Anwen Pritchard (Ty'n Gors Newydd); 2il (£25) – Rhif 19: Karen Element (Plas Glan Gwna); 3ydd (£15) – Rhif 86: Laura Griffiths (Rhanna, Stad Glandŵr); 4ydd (£5) – Rhif 93: Rosie Lloyd (2 Rhos Bach).


## BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts
Ffôn: 870580

**Yr Eglwys Bresyteraidd**

*Oedfaon Mawrth am 5 yr hwyr*

3 Parch Marcus Wyn Robinson (Gweinidog)
10 Parch R.O. Jones, Gaerwen
31 Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan



E. W. Pritchard
Trefnwyr Angladdau
CENTRAL GARAGE
LLANBERIS
FFON- (01286) 870202

RHOSTIO MOCHYN
Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau
AR GYFER POB ACHLYSUR
DEWCS MAE O'N FLASUS
PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU
CIG O FFERMYDD LLEOL
PARTION RHWNG 40-400!
Cysylltwch a
John Brynafon
LLANRUG
www.ydyncig.co.uk
675190 • 673188
Symudol- 07798 718188

CRWYDRO ER BUDD
Taith wefreiddiol
Taith 2019
Y Rocis a mordaith i Alasga
22 Mai - 6 Meh, 2019

Am fwy o fanylion ewch i crwydro.com
Os am gael taflen a mwy o wybodaeth cysylltwch â ni ar -
Ffôn – 01286 881911 (dydd)
Symudol – 07795 485081 (nos)
Ebost - crwydro@crwydro.com
Bydd y daith yn gyfyngedig i 20 teithiwr, felly cyntaf i'r felin...
www.crwydro.com


Gwesty Dolbadarn
Llanberis
Ffôn-(01286)-870277

# CPD BETHEL





Erbyn hyn mae'r gwaith addasu wedi dechrau ar y caban newid ar y maes pêl-droed. Ar ran y clwb cafwyd y datganiad yma gan Sion Jones.

" Roeddwn yn falch iawn gallu cadarnhau i'r pwyllgor bod modd i ni fwrw ymlaen gyda'r prosiect gwych yma. Mae wedi cymeryd amser i gyrraedd y pwynt yma gan fod y gwaith o godi arian, cadarnhau y cynlluniau a'r broses gynllunio wedi cymeryd amser hir. Hoffwn ddiolch i bawb ar y pwyllgor a'r cefnogwyr lleol am eu hymdrechion i godi arian, yn enwedig tynfa y 'Bêl Ddu' a ddaeth a swm sylweddol i goffrau'r clwb. Diolch i'r Grid Cenedlaethol am nawdd o £20 000 yn ogystal ac ambell i gronfa arall. Gobeithir gorffen y gwaith erbyn mis Mawrth, ac wedyn dechrau datblygu ochr arall yr adeilad."

# *CLWB BRO BETHEL*

Yng nghyfarfod Chwefror cafwyd gwledd yng nghwmni yr hanesydd Bob Morris o Benygroes. Gallech glywed pin yn disgyn wrth i'r aelodau ryfeddu at ddawn gwybodaeth a doniau cyfathrebu y darlithiwr arbennig yma. Am awr bûm yn dilyn taith chwedl Madog, fu'n gyswllt wedyn i ddilyn taith John Evans, Waunfawr a'i daith i brofi/ ddadbrofi presenoldeb llwyth 'Gymreig' frodorol – Y Mandan – draw yn America. Cawsom wybod am y defnydd wnaed o chwedl Madog fel arf wleidyddol gan Brydain yn ystod y dadlau am berchnogaeth tiroedd yr Amerig gan yr arch elyn y cyfnod, Sbaen. Os oedd Cymro wedi cyrraedd yno – cyn Columbus – onid tiriogaeth Prydain oedd hi? Cawsom sawl agwedd ar fywyd John Evans – ei ddewrder, ei anturiaethau, a'i ddawn fel un creu mapiau. Dyma elfen fu o fantais i lywodraeth yr Amerig wedi i Napolean werthu tiriogaeth anferth Louisianna i'r Amerig. Bu mapiau John Evans yn allweddol i ddarparu llwybrau'r arloeswyr yn gwthio tua'r Gorllewin. Stori ryfeddol iawn, ac yn fwy rhyfeddol fod y ddarlith o awr wedi ei chyflwyno mor ddealladwy heb help unrhyw nodiadau. Camp yn wir. Braf gweld ffrindiau 'newydd' wedi galw i mewn. Yn ddios mae'r Clwb Bro yn datblygu'n atyniad boblogaidd bellach. Gan fod y Gymdeithas Lenyddol wedi dirwyn i ben mae Pwyllgor y Clwb Bro yn fwriadol lunio blwyddyn o weithgareddau sy'n ceisio cwmpasu elfennau fuasai'n gysylltiedig â'r Gymdeithas a fu – fel y ddarlith ddiweddaraf hon. Cofiwch mae croeso i chwi ddod draw i rannu orig ddifyr gyda ni.

Pythefnos ymlaen cawsom ein gwahodd i ddathliad Gŵyl Ddewi yr ysgol gynradd. Unwaith eto roedd y safon yn arbennig a diolch i'r Prifathro a'r staff am eu croeso a'u trosglwyddiad o brofiadau i bob un o'r plant. Y diwrnod canlynol roedd disgyblion Bl.6 yn mynd i Gaerdydd am dridiau. Gobeithio iddynt fwynhau'r profiad.

Gan fod dau gyfarfod wedi bod yn Chwefror, teimlwyd mai da o beth fuasai cael cyfarfod ar Fawrth 5ed ar yr amser arferol. Y siaradwr gwadd fydd y Prifardd Ieuan Wyn, Bethesda.

# *Parhad* BETHEL

## CINIO GŴYL DEWI

Fe gynhelir y cinio dathliad eleni ar ddydd Gwener, Mawrth 8ed yn y Neuadd Goffa rhwng 12 – 2pm. Diolch o flaen llaw i'r sawl sy'n darparu gwledd inni yn flynyddol.

## GWELLIANT?

Mae'r hen air yn dweud ei bod hi'n anodd bod yn broffwyd yn eich gwlad eich hun. Wn i ddim. Fel yr oeddech yn darllen rhifyn olaf yr Eco, roedd gweithwyr yn tyrchu y brif lôn ac yn cysylltu y bocs BT ger yr hen flwch ffôn i focs newydd sbon ar draws y ffordd. Gan fod dau focs gymharol newydd felly ar ochr Tyddyn Gwndwn o'r ffordd bellach, gobeithio gwelwn wellhad yn y system ffibr optic yn y pentref. Yr un modd cyfeiriais at gyflwr trychinebus ambell ffordd o gwmpas y pentref. Bu'r Cyngor Cymuned yn llythyru droeon ynglyn a'r ddau fater yma ym Methel, ac o'r diwedd mae arwyddion o waith atgyweirio. Ydy BT a Chyngor Gwynedd yn darllen yr Eco tybed?

## OEDFAON MAWRTH

CYSEGR : 3/3 Walter Glyn Davies 10/3 Parch. Anna Jane Evans 17/3 Donald Pritchard 24/3 Gweinidog 31/3 Eurfryn Davies

CAPEL BETHEL : 3/3 Parch. Dafydd Hughes 10/3 Dim Gwasanaeth 17/3 Richard Morris Jones 24/3 Walter Glyn Davies 31/3 Canon Idris Thomas

CAPEL SARON : 3/3 Dafydd Coetmor Williams 10/3 Gwynfor Williams 17/3 Royce Warner 24/3 Richard Gillion ( Cymun) 31/3 Harri Parri

Croeso i bawb ymuno yn yr oedfaon.

## CROESO ADREF

Braf croesawu Nigel Hardwidge yn ôl adref yn dilyn pwt o anwylder tra roedd draw yn Sbaen yn ddiweddar. Mae'r teulu yn hynod falch o'r gofal dderbyniodd Nigel gan y gwasanaethau brys a'r meddygon dros y cyfnod. Brysia wella Nigel.

Danfonwn ein dymuniadau gorau hefyd i Nan Owen, Berwyn sydd wedi treulio cyfnod yn yr ysbyty.

## NEWYDDION O SEION

Hoffai trigolion Seion ddatgan eu diolch I R.J. Williams ( Bob Bryn Glas) am ei grwydr wythnosol yn casglu sbwriel wedi ei daflu ar hyd ffordd Seion. Yn amlwg mae nifer o'n ffyrdd cefn bellach yn fannau 'poblogaidd' i ollwng sbwriel. Mwy pryderus yw cynnwys y sbwriel hynny. Mae'n cymunedau yn prysur newid.

Dymunwn yn dda i'r Parch Euron Hughes. O'i gartref yn Llanuwchlyn bellach, mae Euron yn gyfrifol am ofal nifer o gapeli Annibynol yn ardal Dolgellau. Mae bellach wedi ei sefydlu fel gweinidog gyda'i enwad enedigol – Y Wesleaid - yn ardal Llanfair Caereinion. Wrth ddymuno'r gorau I Euron meddyliwn amdano yn croesi'r Berwyn dros fisoedd y gaeaf. Mae'n siwr bydd Mwynder Maldwyn yn gysur iddo. Clywyd Euron yn arwain yr Oedfa Fore Sul ar Radio Cymru yn ystod y mis. Yr ydym yn cyplysu ein dymuniadau gorau a chofion i'w fam yn y cartref preswyl yng Nghaernarfon.

## DIOLCH

Cyn hanner tymor roedd Lowri Hughes, Swyddog Gweinyddol Ysgol Bethel yn newid swydd. Mae hi wedi ei phenodi i swydd gyffelyb yn Ysgol Bro Lleu, Penygroes. Diolch iti Lowri am dy gyfraniad yma ym Methel. Mae rhestr fer wedi ei thynnu allan ac fe ddisgwylir penodi olynydd yn fuan.

## MERCHED Y WAWR

Croesawodd Gwenan,ein llywydd, ni i gyfarfod bu cyn edrych ymlaen ato. Wedi'r cyhoeddiadau, cydymdeimlwyd ag Anita Owen a'i theulu yn ei phrofedigaeth o golli mam yn ddiweddar. Un o ferched y pentref – Morfudd Thomas – oedd y westwraig a thrwy sgwrs a sleidiau bu'n ail fyw un o'I theithiau anturus tra'n dilyn ei hoffter o fynydda a dringo. Y man dan sylw oedd gwlad fechan Nepal, gwlad yng nghanol mawredd mynyddoedd yr Himalaya. Roedd y golygfeydd yn rhagorol, ond pwysleisiodd Morfudd gyfeillgarwch a chroeso y brodorion cynhenid tra'n nodi eu tlodi amlwg. Cyfeiriodd Morfudd at gyfeillgarwch cymuned a theulu Kamal. Mor gryf oedd dylanwad y cysylltiad yma, fe arweiniodd at Morfudd a'i chyd-deithwyr yn cyflwyno cyfarpar addysgiadol i'r ysgol leol. Gallai rhywun deimlo'r awyrgylch heriol wrth i Morfudd adfyw dringo 4000m i fyny mynydd rhew ger Everest, a hithau'n dioddef o salwch uchder. Cynigwyd y diolch gan Anita, ac wedi panad Falmai, ennillwyd y raffl gan Anne. Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Pant Ddu yng nghyfarfod Mawrth. Bydd y bws yn gadael y Cysegr am 7pm ac yn codi fyny yn y mannau arferol.

## PWYLLGOR Y DI-FFIB

Diolch i Sioned am y rhaghysbysiad am y noson hyfforddi defnydd o'r peiriant . Fe'i gynhelir yn y Neuadd Goffa ar nos Iau, Ebrill 4ydd. Bydd dwy sesiwn – am 6pm a 7.15pm. Croeso i bawb, gan gofio mai y nifer gynyddol fydd â'r gallu i ddefnyddio y peiriant, yna mwyaf fydd cyfle y claf i wella.

## CERDDOROL

Llongyfarchiadau i Rhys Grail , Y Ddôl, a'i fand Gwilym â gipiodd bum gwobr yn noson Gwobrwyo y Cylchgrawn Selar yn Aberystwyth. Ymysg y tlysau roedd y Band Gorau a'r Gân Orau.

## Cydymdeimlad

**Dros y blynyddoedd bu'r "Eco" yn falch ac yn ddiolchgar i Norman Closs Parry am gael cyhoeddi englynion a cherddi o'i eiddo. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf tuag ato yn ei brofedigaeth ddiweddar o golli ei annwyl wraig. Ein cydymdeimlad hefyd at weddill y teulu yn eu colled.**



# Cymry Pennsylvania o Fro'r Eco




Gwlad amaethyddol oedd ardal Slatington, ar odrau y Mynyddoedd Gleision ar lannau yr afon Lehigh, ym Mhennsylvania. Yr oedd yno boblogaeth gref o Almaenwyr hyd nes i'r Cymry ymsefydlu a gweithio yno yn y chwareli llechi niferus gerllaw tua'r flwyddyn 1850. Dyna pryd yr agorwyd gweithfeydd llechi gan y Cymry, Henry Williams, Tŷ Newydd / Ty'n Gadlas, Dinorwig a David Williams,

Bedair blynedd ynghynt, yn 1845, hwyliodd John Roberts, Pengwryd; William Evans o'r Celyn, a Griffith Jones o'r Brithdir, Llanberis, ynghyd â phump arall ar fwrdd y Republic am yr America. Aeth y ddau olaf i New Jersey. Cafodd William Evans waith yno i hel tatws, er mai chwarelwr oedd ei alwedigaeth gynt yng Nghymru. Er ymdrechu, methodd ei gyfaill a chael y fraint yna yno a symudodd ymlaen am Slatington, a gellir dweud mai Griffith Jones, Brithdir, Llanberis, a weithiodd y llechi cyntaf yn Sir Lehigh, mewn chwarel a elwid yn ddiweddarach yn Welsh Town. Ymhen ychydig wedyn prynodd fferm saith milltir o Slatington, wrth odrau y Mynyddoedd Gleision, ac yno y byddai Cymry y dyddiau hynny yn cyrchu o bob cwr o'r gymdogaeth, er mwyn gweld a mwynhau ei gilydd bob wythnos, gan fod yno groeso i bawb. Yno y cartrefodd am 39 o flynyddoedd hyd ei farw ar Hydref 10, 1889, yn 73 mlwydd oed. Gadawodd weddw a chwech o blant.

Yn 1870 yr oedd poblogaeth Cymry Slatington dros fil ac, yn ôl Cyfrifiad 1900, yr oedd yna 1,737 o rai o dras Gymreig yn byw yn y ddinas. Yr oedd yno bedwar capel Cymraeg, dau gan yr Annibynwyr, un gan y Bedyddwyr a'r achos hynaf yn perthyn i'r Methodistiaid a gychwynnwyd yn 1847. Yn sicr, o ardaloedd chwareli Arfon yr ymfudodd y rhan fwyaf o'r Cymry i Slatington. Bu'r chwareli yn llawn gwaith a phawb yn gweithio ac yn cael cystal cyflog ac erioed, ac eithrio adeg y rhyfel cartref (1861-65). Drwy y fasnach lechi daeth Slatington yn dref hardd a glanwaith, gyda'i hadeiladau hardd yn arwydd bod y fasnach wedi talu yn y blynyddoedd a fu.

Dyma restr anghyflawn rhai o fro'r Eco a ymsefydlodd yn Slatington, Pennsylvania

Davies, Morris Parry, m.1890. Cafodd ei ladd wrth groesi y rheilffordd gyda'r nos cynnar. Torrwyd ei ddwy goes i ffwrdd ac anafwyd ei ben yn ddrwg. Mab ydoedd i Henry Davies, Tŷ Beili, Llanberis, un a fu yn glochydd yr eglwys am flynyddoedd. Yr oedd Dr Parry, yr organydd, yn fab i'w frawd. Gadawodd wraig a phump o blant.

Davies, Griffith R. (1830-1893) Penybwlch, Llanddeiniolen.

Edwards, Jane (1835-1865), merch William Williams, Hafod-gynfor, Llanberis. Priod Robert R. Edwards. Mam i ddau blentyn.

Evans, Catherine (m.1869), Priod John W. Evans, gynt o Fethel. Ymfudodd yn 1845.

Evans, John W. (m.1894), North Street yn 44 oed. Brodor o Ddinorwig. Priod a phump o blant. Teithiodd ei ferch hynaf o eithafion y gorllewin i'w angladd.

Griffiths, Elizabeth (1818-1870), Priod Wm E. Griffiths. Ganwyd ym Mhenrhyndeudraeth. Ymfudodd o Ebeneser yn 1869.

Griffiths, Mary (m.1896), gynt o Ebeneser, Dinorwig, gweddw Richard Griffiths a laddwyd yn Upper Lehigh flynyddoedd o'i blaen. Daeth drosodd i'r America gyda'r amcan o gasglu yr arian oedd ym meddiant ei phriod pan y bu farw, ond methiant fu ei holl ymdrechion. Yr oedd yn lletya gyda Lewis William a'i briod ar Walnut Street,

Hughes, Ann (1830-1900), Cwm Glas, Llanberis.

Jones, Humphrey (1836-1892), teiliwr, yn 56 oed. Ganwyd yn Ebeneser, yn fab i Evan a Sarah Jones. Cyfarfu â damwain i'w droed yn y chwarel pan yn 11 oed. Yn y diwedd, oherwydd iddo fethu â dioddef y boen barhaol, torrwyd ei goes i ffwrdd yn Ysbyty Bethlehem, Pennsylvania. Bu yn briod ar ddau achlysur, y tro cyntaf gyda Jane Jones o ardal Cricieth a fu farw yn ifanc gan adael eu mab William. Ac yna gyda Margaret Jones, merch Ellen Ellis, Holland, Blaenau Ffestiniog. Ganwyd iddynt saith o blant. Bu'n ddiacon gyda'r Annibynwyr yn Ebeneser. Yn yr America neilltuwyd ef yn ddiacon yn Slatington.

Jones, Jane (1842-1913), Franklin Street, Llanberis.

Jones, Y Parchedig John Owen (1852-1900), gweinidog M.C. Ganwyd yn Clwt y bont, yn fab i Owen a Margaret Jones. Ar ôl marwolaeth ei dad symudodd ei fam weddw i Lanllechid. Cyfarfu J. Owen â damwain a bu bron iddo gael ei ladd. Yr oedd wedi mynd yng nghwmni nifer o blant at ymyl chwarel gerllaw ei gartref pan ddisgynnodd i'r gwaelod. Cafodd archoll ddofn a adawodd graith amlwg ar ei arlais am weddill ei oes. Bu'n athro yn Llanllechid cyn mynd i'r Coleg Normal, Bangor. Bu'n weinidog yn Abersoch am gyfnod byr. Priododd â Catherine Roberts o Bencarnisiog, Môn. Yn 1886 ymfudodd i Milwaukee, Wisconsin, yn weinidog ar y capel Cymraeg. Bu hefyd yn Wales a Waukesha, Wisconsin; Wilkesbarre, Pennsylvania ac yna Slatington yn 1900, sef y flwyddyn y bu ef farw.

Jones, Mrs J.R. (m.1917), Washington Streeet, yn 60 oed. Merch i

Evan Jones a'i briod, Ebeneser. Mam i wyth o blant.

Jones, Robert Closs (m.1918), 146 Fifth Street, o'r niwmonia yn 48 oed. Un o ardal Foelwen, Dinorwig, mab i David Jones (Tanybryn). Ymfudodd yn 1902.

Lewis, Richard (m.1898). Cyfarfu â damwain angheuol pan syrthiodd mewn chwarel. Un o Waunfawr ydoedd, yn 55 oed ac yn hanu o hen deulu Cas Glas o ochr ei fam, a'i dad yn frawd i'r darganfyddwr llechi, Owen Jones, Gwredog. Ymfudodd yn 1867. Priododd â Margaret, merch Morris ac Ellen Williams, y Furnace, Pennsylvania, yn 1871. Ganwyd iddynt ddwy o ferched, Ellen a Maggie.

Lloyd, Jane (m.1916), Church Street, yn 75 oed. Merch John a Jane Roberts, Sardis, Dinorwig.

Morgans, Rowland D. (1814-1853), yn 39 oed. Gynt o Landdeiniolen. Tad i dri o blant. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parchedig Thomas Hughes Roberts, (1825-1880) a anwyd yn Blaencae, Llanddeiniolen, a oedd yn weinidog yn Slatington o 1852 i 1853.

Owens, Ellis (1825-1915), Nant Ucha, Llanberis.

Owens, Ellis (1835-1898), Nant Ucha, Llanberis o linach Abraham Cwmglas, y bardd.

Owens, William H. (1851-1886), mab Henry a Catherine Owens, Rallt Goch, Cwm y glo, Ymfudodd yn ugain oed ynghyd ac eraill o'r gymdogaeth. Priododd â Catherine, merch Benjamin a Catherine Roberts, Franklin, Pennsylvania. Bu Catherine farw ar enedigaeth un bychan ym Mai 1884. Lladdwyd Wm.H. yn y chwarel lle yr oedd yn fos. Yr oedd yn y chwarel dri o dyllau i'w tanio, methwyd â tanio un ohonynt. camodd yntau ymlaen gan gael ei hyrddio ddyfnder o 15 i 18 llath. Claddwyd ef gyda'i briod a'i ddau blentyn yn Williamstown gerllaw. Pasiwyd y bwriad o gael marwnad goffa iddo yn un o destunau Eisteddfod Dyrchafael Slatington....

### *Rhestr rhai o fro'r Eco a ymsefydlodd mewn rhannau eraill o Pennsylvania*

Cummings Hill
Thomas, William J. (m.1891), Waunfawr
Delta
Morris, Roberts W. (1847-1886), Dinorwig
Lehigh Gap
Morris, Margaret (1847-1848), Waunfawr
Roberts, Hugh (1820-1851), Llanrug
Thomas, Evan (1826-1847), Waunfawr
Little Gap
Jones, Elinor (1819-1854), Llanddeiniolen
Mill Hill
Pritchard, Robert J. (1844-1904), Bryniau, Dinorwig
Minersvilla
Jones, William (1846-1848), llys, Llanddeiniolen
Peach Bottom
Davies, Griffith (1849-1851), Ebeneser
William, Dafydd (1804-1846), Llanddeiniolen
Pittston Ferry
Evans, Owen (1818-1846), Fachell Fach, Llanddeiniolen
Plymouth
Williams, Parchedig J.R. (1861-1928), Llanddeiniolen
Scranton
Hughes, Caradog E. (1847-1888) Tŷ Coch, Llanrug
Slateville
Williams, Mrs Edward (1844-1905), Ebeneser
South Delta
Hughes, Catherine (1850-1907), Clwt y bont
West Bangor
Edwards, John D. (m.1867), Waunfawr
Evans, Griffith (1908-1873), Cae Bach, Waunfawr
Evans, Hannah (1807-1866), Penyrallt, Waunfawr
Hughes, Phoebe (1797-1868), Llanddeiniolen
Jones, Foulk (1822-1908), Clegir, Llanrug
Jones, Margaret W. (18227-1916), Ebeneser
Morris, William W. (1926-1898), Llanberis
Owen, Elizabeth (1825-1910), Cwm y glo
Roberts, Anne (1831-1906), Clwt y bont
Roberts, Anne (1843-1910), Llanberis
Williams, Anne (1857-1918), Bwlch Uchaf, Llanberis
Wilkesbarre
Jones, Wiliam T. (1848-1908), Llanrug
Morris, Parchedig J.W. (1850-1928, Fachwen, Dinorwig, mab William a Catherine, Y Glyn
Thomas, John E. (18224-1894), Ty'n Llidiart, Llanddeiniolen.

Arvon Roberts, Pwllheli

Dyn da oedd William, dyn diwyd - ac O!
Un cywir ei ysbryd;
I'w Waredwr rhodd gredyd
Trwy iawn fyw tra yn ei fyd.
Ioan Maglon, Slatington

Roberts, Robert W. (1823-1861), gynt o Ebeneser.

Roberts, Rolant (m.1892). Aeth amryw o ŵyr ifanc i ymdrochi i hen chwarel yn ardal Franklin, gerllaw Slatington, a'r canlyniad fu i Rolant foddi yn eu canol cyn iddynt allu ei achub. Gŵr dibriod ydoedd, tua 25 oed, mab i Robert Roberts, Pen-y-bwlch, Dinorwig.

Roberts, Samuel O. (1837-1871) yn 34 oed. Mab i Owen Roberts, Caeau Cochion, Dinorwig. Ymfudodd yn 1858. Priododd â Jane, merch John a Jane Roberts, Slatington, a chanddo bump o blant. Yr oedd yn ysgrifennydd yng Nghapel M.C. Slatington.

Trebor Arvon (m.Rhagfyr 1887) Ymwelodd â Slatington am dri mis. Daeth yno o Ashley, Pennsylvania i geisio gwella ei iechyd. 'Ef oedd yr unig ohebydd o bwys yn Ebeneser, Arfon, a'r mwyaf blaenllaw gyda pob symudiad daionus'. Yr oedd yn Slatington liaws o'i gyfoedion bore oes, y pennaf ohonynt oedd Griffith G. Evans (Gutyn Alaw), arweinydd côr yn Slatington am dros ugain mlynedd.

Williams, Henry (1919-1878), Tŷ Newydd / Ty'n Gadlas, Dinorwig. Rhoddodd ei enw i dref Williamstown, Pennsylvania.

Williams, Morris ('Morris Williams y Furnace'), (m1898). Un o sefydlwyr cyntaf yr ardal. Ganwyd ef yn Tŷ Danw, Waunfawr. Ymfudodd yn 1846, glynodd yr enw Furnace wrtho oherwydd mai yn y dref honno y treuliodd ran fawr o'i oes, tua pedair milltir o Slatington. Yr oedd yn chwarelwr medrus ac yn hanesydd heb ei ail.

Williams, William P. (m.1916), South Street. Brodor o'r Clegir, ger Ebeneser. Gadawodd wraig a dau o blant.

Marchnad Ogwen
Neuadd Ogwen, Bethesda
(Marchnad Mehefin ar gae Sioe Dyffryn Ogwen)
Ar yr ail Sadwrn yn fisol 9.30 - 1.00
Bwydydd • Crefftau • Lleol
www.marchnadogwen.co.uk



CHWILOTA
chwilota.wordpress.com

## Anturiaethwr o'r Ceunant

Ganed Griffith John Hughes yn Craig y Don, Cwm y Glo, yn fab i John a Mary Hughes, ond pan oedd yn bedair oed, symudodd y teulu i gymryd tenantiaeth Merddyn yng Ngheunant. Digwyddodd hyn tua 1863-64. Roedd nifer o fân ddaliadau'r Ceunant yn eiddo Stad Glangwna bryd hynny, ac yr oedd Merddyn yn un ohonynt. Bu John Hughes, y tad, yn flaenor yng nghapel Ceunant hyd ei farwolaeth ym mis Mawrth 1884.

Yn ddwy ar hugain oed, mentrodd Griffith John Hughes, gyda cyfaill iddo o'r enw John O. Hughes, i Dde Affrica. Roedd yn gyfnod o sefydlu rheilffyrdd yno, a bu'r ddau yn gweithio ar gynllun i adeiladu rheilffordd i gysylltu Craddock a Colesburg yn yr Orange Free State. Cawsant wedyn eu dewis yn gontractwyr i adeiladu rheilffordd o Aliwal North i Burghersdorp. Mae'n amlwg iddynt wneud celc go dda tra'n cyflawni'r gwaith, oherwydd wedi dychwelyd i fro ei febyd, prynodd Griffith John Hughes chwarel lechi, sef chwarel Cooke a'r Ddôl ar lethrau'r Cefn Du uwchlaw Llanberis.

Ym mis Mai 1886 daeth nifer o dyddynnod ardal y Ceunant oedd ym mherchnogaeth Stad Glangwna, ar werth, a phrynwyd y cartref a naw acer o dir gan Griffith John am £370. Mewn adroddiad am yr arwerthiant dywedir fod y mwyafrif o'r eiddo yng Ngheunant "secured by the tenants." Mae'n ymddangos fod Griffith John yn parhau i fyw yno, oherwydd ddwy flynedd yn ddiweddarach, yn 1888 fe'i codwyd yn flaenor yng nghapel Ceunant. (Roedd ei frawd, Hugh John Hughes eisoes yn flaenor yno ers marwolaeth y tad). Ond yn yr arwerthiant, rhoir ei gyfeiriad fel Snowdon View, Llanberis.

Yr oedd wedi priodi efo Miss M. E. Griffith, Plastirion, Llanberis, ac yn ôl hanes y Capel Coch, fe'i dewiswyd yn flaenor yno yn 1891. Dan yr enw 'Cofnodwr' ysgrifennodd bump ysgrif yn y Genedl ar 'Hen Flaenoriaid Llanberis'.

Mae'n amlwg erbyn hyn ei fod wedi ymgartrefu yn Llanberis, oherwydd ym mis Mai 1892 daw Merddyn Morris ar werth unwaith eto, ac erbyn hyn, roedd 37 acer o dir a dau dŷ yn rhan o'r gwerthiant; cynnydd sylweddol ers y pryniant yn 1886. Does dim gwybodaeth am brynwr y fferm.

Tybed beth fu hanes Griffith John Hughes yn Llanberis, ac am ba hyd y bu chwarel Cook a Ddôl yn ei feddiant?

## Tŷ Newydd, Waunfawr





Ymddangosodd y llun ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar gydag ymholiad ynglŷn â ble roedd yn y Waunfawr, a beth oedd ei hanes. Ac fel yn achos nifer helaeth o bostiadau'r cyfrwng hwn, diflannodd yr un mor sydyn. Cais sydd yma felly am wybodaeth. Mae'n amlwg fod y 'tŷ newydd' yn hen iawn erbyn cyfnod tynnu'r lluniau uchod. Ydio'n dal i sefyll?

# Castell Rhidyn a Maes y Muriau

Awn yn ôl i'r ardal rhwng Caeathro a'r Bontnewydd eto y mis hwn, gan ddibynnu ar nodiadau John M. Roberts o'r Felinheli, ond yn wreiddiol o Fryn Hyfryd yn yr ardal dan sylw. Chlywais i erioed son am Gastell Rhidyn nes derbyn y nodiadau hyn, ond mae'n ymddangos ei fod wedi ei gofnodi – a'i archwilio, gan y Parch Richard Farrington, Rheithor Llanwnda. Yn 1741 y daeth i Lanwnda a Llanfaglan fel rheithor, a bu yno am tua ugain mlynedd cyn cael ei benodi yn ganghellor ym Mangor. Yr oedd ganddo ddiddordeb dwfn yn hynafiaethau yr hen Sir Gaernarfon, a gyda Farrington y lletyai Thomas Pennant ar ei ymweliad â'r ardal. Ysgrifennodd dair cyfrol o ddiddordeb hynafiaethol: 'Numismata Dinlleana', 'The Druid Monuments of Snowdonia' a 'Celtic Antiquities of Snowden'. Mae'r llawysgrifau ar gadw yn y Llyfrgell Genedlaethol.

Ond ble roedd Castell Rhidyn? Mae'n ymddangos mai ar dir Castellmai yr oedd ei olion, ond does wybod ble yn union, dim ond ei fod yn cael ei ddisgrifio fel "square entrenchment". Rhoir eglurhad ar yr enw hefyd, sef 'rhi' yn golygu arglwydd, a 'dyn' (nid gwrywaidd dynes!) yn golygu safle wedi ei amddiffyn. Hynny yw 'Amddiffynfa arglwydd wedi ei hamddiffyn' !

Mae lleoliad Maes y Muriau hefyd yn ansicr. Dywedir fod dau biler o garreg yno ar un amser a hynny yn agos at 'gladdfa fawr'. Roedd cerrig llai yn yr un safle ond fod amryw o'r rheini wedi eu symud i adeiladu waliau. Dirgelwch arall felly.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod dogfennau yn dyddio o 1519 yn nodi'r enw "Erw Castell". Yn y flwyddyn honno mae John ap Robert o Dreflan (ardal Caeathro) yn rhoi yn anrheg i Griffith ap William ap Hoell o Rug, le o'r enw "Tythyn y Kay Coch in a place called Avon Bagh; a parcel in Bryn Bethee, a parcel in Erro Castell east of Tythyn y Baghe; also Ty Saint Michael and Y Weyne Vawr Issaphe." Mae'r un enwau llefydd yn union yn cael eu cofnodi hefyd yng nghofnodion Glanrafon sydd i'w cael yng Nghasgliad y Faenol.

Ond cawn wybod mwy am y ddau berson hyn mewn cofnodion fymryn yn gynharach, ond yn son am eiddo gwahanol, eto yn yr un ardal. Yn 1512 mae cytundeb rhwng Robert ap John a William ap Hoell ap Ieuan o Rug ynglyn a "Kay Commenney beside Glan yr afon bach, a Tythyn Ismell in Kay y Maen Llwyd", ac eto am "Yr Gweyne Ole beside yr Afon Bagh in Castellmai."

Yng nghofnodion Glanrafon (Casgliad y Faenol) mae dogfen wedi ei dyddio 10fed o Chwefror 1513 sy'n rhoi'r wybodaeth ganlynol: fod Robert ap John ap Einion "of the episcopate of Bangor and the vill of Castellmay" yn rhoi, fel anrheg i William ap Hywel ap Ieuan ap Dafydd o Rug ddau dy, sef Cay yr Commonyth a Tuthyn Ismel, " and a hamlet in Kay yr Mayn Lloyd and all other lands at a place called Yr Gweyne Ole beside yr Afon Bagh in the said township." Roedd yr eiddo i gyd felly, o fewn dalgylch Castellmai. Mae'n ymddangos mai am dir o amgylch y Glanrafon bach presennol y sonnir yn y dogfennau. Roedd gan Griffith ap William ap Hywel ddau fab – Rowland a William. Disgynyddion Rowland a ddaeth yn berchnogion ar Glanrafon bach, Glanrafon, Castellmai a Llety yn yr ardal, ond trwy briodasau, cysylltwyd y teulu a Phlas Llanfaglan, Bryn Adda (a Phrysgol wedyn), a Rhuddgaer ym Mon.

Disgynyddion William a ddaeth yn berchnogion ar Glyn Afon (Waunfawr), Caeau Gwynion (Betws Garmon), a thrwy briodasau a theulu Rowlands, Plas Nant (Betws Garmon,) Plastirion (Llanrug) a'r Crug (Llanfair is gaer).

Gwaddol go sylweddol yn deillio o rodd o dir yn 1512!

# Undeb y Mamau, Penisarwaun

Yn dilyn ymateb Haydn Lewis i'r llun, gyda'r cais am rai o'r 'enwau coll', daeth enw un arall ohonynt gan Ron Pleming, Llanrug. Meddai, "Gallaf enwi un o'r pump sef Mrs Mary Perkins o Ddinorwig, sydd yn eistedd yn y rhes flaen mewn sgert a spotiau. Hi sydd y nesaf ond un at y ficer . Y hi oedd fy nain ac yn byw yn y bwthyn bychan Pen Rhiw sydd dros y ffordd i dai cyngor Maes Eilian yn Ninorwig.

Ei chysylltiad â Phenisarwaun oedd, fod y teulu yn byw yn y pentref ac yn addoli yn eglwys Santes Helen, tra bod fy nhaid wedi bod yn cadw'r efail fel gof. Wedyn symudodd y teulu i Ddinorwig a fy nhaid yn mynd i'r chwarel i weithio fel gof."

Dyna un enw arall i'w ychwanegu at y rhestr felly. Beth am yr ychydig sydd ar ôl?

# Hen Ffynnon y Cwm

Derbyniwyd un ymateb i'r penillion yn y rhifyn diwethaf am Ffynnon Cwm y Glo. Roedd Dilys Jones, Fachwen yn cofio mynd i ymweld â'i nain pan yn blentyn, a hynny yng Nghwm y Glo. Dwr o ffynnon oedd ar gael yno bryd hynny – Bryn Ffynnon, yn ymyl y tai sy'n cael eu galw ar lafar yn Tai Steps, uwchlaw'r pentref. Yn yr ardal hon hefyd y mae tai Uwchlaw'r Ffynnon. Ond siawns nad hon oedd yr unig ffynnon yn y pentref. Felly, ai hon oedd y ffynnon y cyfeirir ati gan y Parch Collwyn Morgan? Mae Cymdeithas Ffynhonnau Cymru hefyd â diddordeb mewn darganfod mwy am y ffynnon. Felly, cysylltwch, chi sydd â chysylltiadau â Chwm y Glo.

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes lleol bro'r "Eco", neu unrhyw hanesyn diddorol am unrhyw gyfnod yn hanes y fro, yna cysylltwch a Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. LL55 4BA (Ffon: 01286 673515)
e-bost: dafydd.wthomas@btinternet.com neu ar safle chwilota.wordpress.com

GERAINT OWEN
CARPEDI
Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfai Mill, Bontnewydd
(01286)650552 Mob. 07712779475
CARPEDI
TEILS
VINYLS
DEWIS MAWR O BATRYMAU

Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*
Sion Roberts 07759415753
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

## LLANRUG Eryl Roberts, Peris,56 Glanffynnon (675384)

**Eglwys Sant Mihangel**
Croeso i bawb ymuno â ni yn Y Sefydliad Coffa.
Dydd Sul, 3ydd o Fawrth am 10.00 Gwasnaeth anffurfiol gyda lluniaeth a chrefftau i ddilyn.
Dydd Sul, 17eg o Fawrth am 10.00 Cymun Bendigaid.

**Cydymdeimlad**
Dymunwn gydymdeimlo ag Awen, Lee a'r plant, 2 Tai Plastirion, yn eu profedigaeth fawr o golli brawd Awen o Gaernarfon.
Cofion at Bethanne ac Idwal Williams, Disgwylfa, Ffordd yr Orsaf; hwythau wedi cael profedigaerth. Bu farw aelod o'r teulu yn annisgwyl yn Ne Cymru.

**Cofion Gorau**
Cofion yn arw at Mrs Megan Williams, Bron Eryri, Ffordd yr Orsaf yn dilyn damwain gas yn ddiweddar. Mae yn gwella – cymerwch ofal Mrs Williams.

**Gwella**
Braf yw gweld Mr Stanley Roberts, Glanffynnon o gwmpas y pentref ac yn y capel yn dilyn arhosiad yn yr ysbyty. Cofion gorau atoch.
Mae sawl person yma yn y pentref wedi bod yn wael neu'n dioddef salwch byr-dymor. Anfonwn ein cofion gorau am wellhad llwyr i chi i gyd.

**Plaid Cymru**
Enillwyr Mis Chwefror
1.. Hefin Jones, Pant Mwyn, Llanrug
2.. Arwyn Roberts, Hafle, Llanrug

**Capel y Rhos Oedfaon Mawrth**
3: Parch Marcus Wyn Robinson, Gweinidog. Gweinyddir y Cymun
10: Parch Gwyndaf Jones, Bangor
17: Gweinidog
24: Mr T. Alun Williams, Caernarfon
31: Mr Robert Morris, Penygroes.
Fore Sul, Chwefror 17eg cafwyd Gwasanaeth Bob Oed yng ngofal Mrs Susan Williams, Ceunant. Cyflwynodd Susan stori Jona drwy weddiau, emynau a chartŵn ar y sgrin yn ei ffordd annwyl ac arbennig a mwynhawyd yr oedfa gan bawb, yn oedolion a phlant. Braf oedd gweld y plant wedi hoelio eu sylw arni ac yn ymateb yn ardderchog i'r canu a'r symudiadau.
Susan yw Gweithiwr plant, ieuenctid a theuluoedd Cynllun EFE ac mae yn cynnal gwasanaethau fel hyn yng nghapeli ac ysgolion bro'r Eco. Beth am ddod i'w chefnogi o bryd i'w gilydd, Fe gewch gyflwyniadau hynod ddiddorol a modern eu naws gyda neges i ni i gyd.

**Clwb Clychau'r Grug**
Fore Mercher, Mawrth 6ed, edrychir ymlaen at weld ein gilydd yn Y Felin am 10.30 y bore. Mae'n braf cael y cyfle i hel atgofion uwch paned o goffi a the. Rydym i gyd yn anfon ein cofion at Glenys a Siencyn ac at Menna sydd wastad yn ein meddyliau.

**Merched y Wawr** Nos Fawrth, Chwefror 12fed, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y Llywydd, Bethanne, a chychwynnwyd gyda Chân y Mudiad. Derbyniwyd rhai ymddiheuriadau a dymunwyd adferiad iechyd buan i bawb sy'n sâl. Trafodwyd rota a rhestr bwyd caffi'r Urdd yn Ysgol Brynrefail ddydd Sadwrn, Mawrth 9fed. Cytunwyd bod pawb i baratoi brechdanau ac unai teisennau bach, teisen, bara brith a theisennau cri. I'r rhai sy'n methu dod gellir cyfrannu arian tuag at y diodydd a'r creision neu anfon teisennau a brechdanau i unrhyw aelod o'r pwyllgor. Diolchir i'r rhai sy'n barod i gefnogi'r rota ac i Megan a Jean am ofalu am y beirniaid drwy'r dydd.
Mae Meirwen, y Llywydd Cenedlaethol, wedi gosod her i aelodau'r Mudiad, sef 6,000 ohonom i gasglu 6,000 o fagiau sbwriel drwy Gymru yn ystod 2019 i 'Gadw Cymru'r Daclus'. Cynhelir cystadleuaeth Bowlio 10 y Rhanbarth yn Glasfryn ar nos Wener, Ebrill 26ain. Pwysig nodi bod y dyddiad yn ystod gwyliau'r Pasg.
Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â Bethanne a'r teulu ar eu profedigaeth o golli ei brawd yng nghyfraith. Diolchir i'r genod a fu'n gofalu am y baned a'r raffl. Dathlu Gŵyl Dewi fydd ein cyfarfod nesaf. Mae cais ar i bawb ddod â gwydryn a phlât gyda chwi.
Gŵr gwadd y noson oedd y dyn camera amryddawn, Dylan Arnold, yn wreiddiol o Feddgelert ond bellach wedi ymgartrefu yn Llanrug hefo'i wraig a dau o blant. Prif bleser Dylan yw cymryd tirluniau ac mae ganddo diddordeb mawr yn yr hanesion tu ôl i'r lluniau. Ymunodd â chriw o ffotograffwyr ar nos Fawrth i ddysgu sut i ddatblygu y gweithgareddau a oedd o ddiddordeb iddynt rownd y flwyddyn, sef tirluniau lleol yn y gwanwyn a'r haf, tirluniau ar gerdded yn yr hydref a 'photoshop a light painting' yn y gaeaf. Dangoswyd nifer o dirluniau i ni a chawsom yr hanesion tu ôl iddynt. Dangoswyd lluniau anhygoel o 'light painting and long exposures'. Eglurwyd inni sut mae'r Prosiect Cymru Gudd wedi dechrau ac wedi datblygu. Yma dangoswyd lluniau o hanes cefn gwlad a'r werin bobl a'r ffordd o fyw sydd yn prysur ddiflannu. Gan bod diddordeb mawr gan Dylan mewn hen adeiladau a hen lefydd ers yn blentyn dangoswyd i ni luniau anhygoel o lefydd hanesyddol, megis castell Caernarfon a'i adlewyrchiad yn y dŵr, lluniau o Chwarel Dinorwig, Llyn y Gadair ac elyrch ym Mhen Llyn. Dywed Dylan mai pobl ydyw'r ffordd orau o gael gwybodaeth am lefydd diddorol. Ym mis Mai 2018 roedd Dylan yn un o feirniaid cystadleuaeth ffotograffiaeth y rhaglen Heno ar S4C.
Bu hanes Dylan hefyd yn y cylchgrawn wythnosol Golwg yn 2017. Mae arddangosfa o'i waith gwych yn Storiel, Bangor, tan fis Medi. Diolchodd Bethanne i Dylan am noson hynod ddifyr ac addysgiadol.





Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •
Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk
The ROYAL VICTORIA HOTEL Snowdonia

# *Parhad* LLANRUG




Mae Cyngor Cymuned Llanrug, gyda cefnogaeth busnesau ac unigolion lleol, wedi gosod 4 diffibriwlwr yn ardal Llanrug a Chwm y Glo. Mae 3 wedi eu gosod yn Llanrug, sydd wedi eu lleoli – ar waliau siop Spar, Y Glyntwrog a'r Sefydliad Coffa ac yng Nghwm y Glo ar wal y becws.

Mae'r diffibrilwyr wedi gosod drwy elusen 'Achub Calon y Dyffryn' sydd yn grŵp bach iawn o Barafeddygon ac Ymatebwyr Cyntaf Gwasanaeth Ambiwlans Cymru sy'n rhoi eu hamser yn wirfoddol er mwyn cynorthwyo cymunedau i leoli mwy o ddiffibrilwyr ac hefyd i gynyddu'r nifer o bobl sydd yn derbyn hyfforddiant CPR ac sut i ddefnyddio diffibrilydd.

Fe gynigir hyfforddiant am-ddim, sydd wedi ei drefnu ar gyfer y 15fed o Fawrth yn y Sefydliad Coffa, un sesiwm an 2:00 yp ac un arall am 7:00yh ac erfynnir arnoch fynychu un o'r sesiynnau.

Gall unrhyw un ar unrhyw adeg ddioddef o ataliad y galon. Yn aml does dim rhybudd a gall ddigwydd ar unrhyw amser ac mewn unrhyw le. Mae ataliad y galon yn gyflwr ble fydd y galon yn stopio yn ddi rybudd yn dilyn nam yn system trydanol y galon. Y nam sy'n achosi'r ataliad yw rhyddym calon anarferol peryglus, neu arrhythmia. Pan fydd hyn yn digwydd, defnyddio diffibrilydd (i roi sioc drydanol i'r galon) ynghyd a rhoi CPR yw'r unig ffordd i ail-sefydlu rhyddym naturiol y galon. Am bob munud ble fydd oedi yn defnyddio diffibrilydd, mae'r siawns o oroesi yn gostwng 10%.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cynllun yn ddiweddar "Cynllun Ataliad y Galon tu allan i'r Ysbyty yng Nghymru" sy'n datgan fod rhywun yn dioddef ataliad y galon bob 60 eiliad yng Nghymru a bod cyfraddau goroesi yn 25% mewn rhai gwledydd or yn isel iawn yng Nghymru ac y ddim ond yn 3%.

Mae'r ymchwil yn dangos fod cyfraddau goroesi yn uwch pan fydd y gadwyn oroesi yn cael ei rhoi ar waith yn gyflym ac yn systemataidd. Wrth ddeall beth yw ataliad y galon ac adnabod y symptomau, galw 999 yn syth, rhoi CPR ar unwaith a defnyddio diffibrilydd cyhoeddus gerllaw, gall y cyfradd goroesi fod mor uchel a 70%.

Un o prif nodweddion y cynllun a gyhoeddwyd gan y llywodraeth yw cydlynnu y gadwyn yma mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru er mwyn cael cyfres o bobl ac offer sydd wedi eu hyfforddi i roi CPR a defnyddio diffibrilwyr. Y nod yw cael diffibrilwyr ar hyd a lled Cymru, ym mhob cymuned yn ogystal ac estyn cyfleodd hyfforddi I bawb o bob oedran ardraws y wlad.

Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu tuag at yr ymgyrch yna gellir gwneud hynny drwy gysylltu ac unrhyw aelod o Gyngor Cymuned Llanrug, neu ymweld a gwefan y Cyngor ar www.llanrug.cymru

## Diwrnod casglu sbwriel



Ar 12fed o Ionawr daeth tua 40 o drigolion lleol at eu gilydd i gasglu sbwriel o amgylch Llanrug a Cwm y Glo.

Mae hwn yr ail ymgyrch a drefnwyd gan Cyngor Cymuned Llanrug ac roedd yn braf gweld wynebau newydd wedi ymuno, ynghyd a rhai o bobl ifanc. Ar ddiwedd y dydd casglwyd dros 40 o fagiau 'sbwriel.

Mae diwrnod arall wedi drefnu ar gyfer 2ail o Fawrth ac estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd yn dymuno ymuno a'r ymgyrch i gyfarfod yn y Sefydliad Coffa, Llanrug neu wrth gae chwarae Tanrallt, Cwm y Glo rhwng 9:30 a 10:00 yb, ble darperir offer.

## Te Prynhawn Marie Curie







Diolch o galon i bawb ddaeth i gefnogi'r prynhawn arbennig yn Hafan Elan. Diolch am roddion ariannol a rhoddion hael at wobrau raffl. Mwynhawyd amrywiaeth o ddanteithion blasus ac fe wnaed elw ardderchog o £565 tuag at yr apêl. Unwaith eto, roedd cyfraniad Haf Thomas, Buarthau, yn hynod werthfawr. Cyflwynodd bron i £150 o'i gwerthiant cardiau a'r pum ceiniogau mae'n eu casglu.


Daeth Dr Esyllt Llwyd o Feddygfa Waunfawr a Llanrug yno i ddiolch i bawb am yr ymdrech ardderchog. Hi yw'r cynrychiolydd clinigol ar fwrdd cenedlaethol Marie Curie. Dywedodd ei bod yn hynod falch o gael cyflwyno'r arian i achos mor deilwng a'n bod ni yn Llanrug wedi codi ymwybyddiaeth o waith y mudiad.

# Sbwriel – ETO !!!



Ar ddiwedd yr wythnos gyntaf ym mis Chwefror roedd llwyth o sbwriel o bob math wedi ei daflu i'r llain tir rhwng y lôn a'r goedwig yn ardal Cefn Du / Moel Eilio. Ar ddydd Llun cyntaf yr ail wythnos roedd aelod o Dim Archwilio Troseddau yr Heddlu yno – yn gwisgo mwgwd a menyg, yn archwilio'r sbwriel. Bu'n rhaid cario cryn dipyn o'r sbwriel oddi yno oherwydd fod rhai o'r bagiau yn cynnwys esgyrn. Roedd hynny'n golygu fod yn rhaid ymchwilio ymhellach i gynnwys y sbwriel. Does ond gobeithio nad esgyrn dynol oedd yno. Ond gobeithio hefyd fod digon o gliwiau yng nghanol yr holl wastraff i'r heddlu fedru darganfod pwy fu'n gyfrifol am y fath lanast.

Mae'r ardal hon bellach wedi mynd yn rhemp o ran gwagio sbwriel yn anghyfreithlon. Roedd llwyth arall wedi ei adael ger giat Bwlch y Groes yn ddiweddar. Ond pam? Pwy yn ei iawn bwyll fyddai'n mynd yno ar lôn sy'n llawn tyllau – a hynny yn nhrymder nos mae'n debyg, - a chanolfan ail-gylchu Cibyn mor agos ac mor hwylus? Dychmygwch y gwastraff adnoddau ac arian i'r heddlu. Dychmygwch y gost i Gyngor Gwynedd i glirio'r llanastr. Ac mae'n siwr mai'r ffyliaid sy'n creu'r fath broblemau fyddai'r cyntaf i gwyno fod y trethi'n codi.

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU
DEWIS EANG O LUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy
www.fframia.com

BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

HUW OWEN
PLASTRWR
ADEILADWR LLEOL
22 BLWYDDYN
O BROFIAD
Ffôn- 01286 677668
Symudol-
07940023159
CWÔT DI DA
Gladwyn Station Rd.
LLANRUG, Caernarfon
LL55 4AG
Ebost- lisa.huw@btinternet.com

WAVELL'S
Bryn Ac Angela Williams
London House
LLANRUG
PEN
CIGYDDION
Y FRO
YR ŴYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!
(01286) 673574

DODREFN A LLORIAU
PERKINS
FURNITURE & FLOORING
• • • 01286 673535 • • •
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr , Caernarfon , Gwynedd . LL55 1AG

# Cogyddion ifanc lleol yn paratoi swper Gala



**Ar Fawrth 20fed, 2019 bydd y cogydd Ffion Roberts o Gaergybi yn dychwelyd i Goleg Menai i hyfforddi myfyrwyr arlwyo lleol wrth goginio pryd 3 chwrs mawreddog i godi arian at Ŵyl Fwyd Caernarfon.**

**Bydd y Cinio Gala, sy'n cael ei chynnal ym Mwyty Friars, Bangor, yn gyfle i'r myfyrwyr o'r ardal roi eu hyfforddiant ar waith wrth baratoi a gweini'r pryd i hyd at 120 o westeion. Bydd elw'r noson ym mynd tuag at allu cynnal Gŵyl Fwyd Caernarfon am ddim i'r cyhoedd fel bod modd croesawu ymwelwyr o'r ardal leol ac o bell i fwynhau bwyd a diod o Gymru ar Fai 11eg, 2019.**

**Wedi gweithio ym mwyty Seacroft, Bae Trearddur fel sous chef am saith mlynedd, cyfnod yn Swydd Gaerhirfryn ac yn Ffrainc, dychwelodd Ffion i'r Seacroft fel prif gogydd y llynedd.**

**Dyma'r bedwaredd tro i'r Ŵyl Fwyd gydweithio gyda Choleg Menai ar gynnal Cinio Gala er mwyn rhoi cyfle i gogyddion ifanc lleol fod yn rhan o'r Ŵyl Fwyd ac ysbrydoli'r myfyrwyr. Y gobaith yw dangos i'r myfyrwyr bod dyfodol i weithio yn lleol gyda gwledd o gynhwysion o'n hamgylch.**

**Mae tocynnau i'r Cinio Gala ar werth am £25 y pen o siop Palas Print, Caernarfon.**




## Dyffryn Peris yn rhoi stamp ar Wobrau'r Selar



Un o ddigwyddiadau mwyaf y sin gerddoriaeth Gymraeg erbyn hyn yw Gwobrau'r Selar, digwyddiad gwobrwyo'r cylchgrawn gerddoriaeth Gymraeg sy'n cael ei chynnal yn flynyddol yn Aberystwyth. Yn wahanol i wobrau cerddorol eraill yng Nghymru fel Albwm Cymraeg y Flwyddyn a Gwobr Gerddoriaeth Gymreig, mae mwyafrif o gategorïau Gwobrau'r Selar yn gadael i'r cyhoedd benderfynu pwy ddaw i'r brig.

Roedd hi'n braf gweld presenoldeb cryf o Ddyffryn Peris yn dod i'r brig eleni gydag Alffa yn derbyn DWY wobr arbennig am gyrraedd DWY filiwn o ffrydiau erbyn hyn am eu can 'Gwenwyn'. Enillodd y band 'Gwilym' bum gwobr (ie, 5!) yn cynnwys Can Orau, Fideo Gorau, Band Gorau, Albwm Gorau a Gwaith Celf Gorau gan yr artist Rhys Grail o Fethel, sydd hefyd yn aelod o'r band. Edrychwch ar ein tudalen Facebook i ail ddarllen cyfweliad gyda Rhys o'n rhifyn mis Medi 2018. Llongyfarchiadau!

# Diwrnod Sgiliau Ysgol Brynrefail - Chwefror 8fed















Cafwyd diwrnod hynod o ddifyr a phrysur iawn yn yr ysgol ar ddydd Gwener, Chwefror 8fed pan gynhaliwyd ein hail Ddiwrnod Sgiliau eleni. Trefnwyd gweithgareddau i holl ddisgyblion yr ysgol a nod y diwrnod oedd datblygu nifer o sgiliau sy'n allweddol i'n pobl ifanc – sgiliau fel cyfathrebu, rhifedd ac adolygu, yn ogystal â'u haddysgu am iechyd meddwl, byw'n iach a ffitrwydd corfforol.

Thema Blwyddyn 7 oedd 'Iechyd Meddwl', pwnc y mae'n hynod o bwysig ein bod yn cael cyfle i'w drafod a dysgu sut i gadw'r meddwl yn iach. Yr oedd disgyblion blwyddyn 12 wedi bod yn paratoi amrywiaeth o weithgareddau i addysgu blwyddyn 7 am iechyd meddwl fel rhan o un o heriau'r BAC. Datblygwyd adnoddau a gweithgareddau ardderchog ganddynt yn amrywio o ymarfer yoga i weithgareddau synhwyrus i dawelu'r meddwl. Cafodd disgyblion blwyddyn 7 ddiwrnod wrth eu boddau a chlywyd canmoliaeth uchel ganddynt i'r hyn roedd blwyddyn 12 wedi ei greu ar eu cyfer.

Canolbwyntiwyd ar ddatblygu sgiliau STEM disgyblion Blwyddyn 8 drwy wneud gweithgareddau Mathemateg, Gwyddoniaeth a Thechnoleg Gwybodaeth. Mwynhaodd y disgyblion y cyfleoedd oedd wedi eu paratoi ar eu cyfer i wneud gwaith ymarferol ac arbrofol ar hyd y dydd.

'Byw'n Iach' oedd thema diwrnod Blwyddyn 9. Cawsant gyfle i gymryd rhan mewn gwahanol weithdai yn ystod y dydd; gweithdy datblygu ffitrwydd, gweithdy iechyd meddwl a gweithdy bwyta'n iach. Unwaith eto roedd cynnwys y diwrnod yn ddifyr a phawb wedi mwynhau.

'Llwyddo'n Lleol' oedd thema diwrnod blwyddyn 10 gyda'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithdai i ddatblygu eu sgiliau entrepreneuraidd fel rhan o un o heriau'r Fagloriaeth Gymraeg.

Gwaith blwyddyn 13 a rhai o athrawon yr ysgol oedd cyflwyno nifer fawr o strategaethau adolygu i flwyddyn 11. Roedd disgyblion blwyddyn 11 wedi bod yn dweud wrthym eu bod yn ei chael hi'n anodd iawn adolygu ar gyfer eu ffug arholiadau ym mis Tachwedd a nifer ohonynt yn ansicr sut i fynd o'i chwmpas hi. Bwriad y gweithdy oedd cyflwyno amrywiaeth o ddulliau adolygu i'r disgyblion yn ogystal â rhoi cyfleoedd i ddisgyblion blwyddyn 13 rannu eu profiad o wahanol ffyrdd maen nhw'n adolygu i'r disgyblion iau.

Diolch yn fawr iawn i'r holl athrawon am eu gwaith caled ar y diwrnod ac am eu paratoadau gofalus i sicrhau llwyddiant y diwrnod i bawb.

## Disgyblion yn cyrraedd y safonau uchaf mewn cystadleuaeth traws gwlad

Ar Chwefror y pedwerydd yn Nolgellau perfformiodd disgyblion yr ysgol yn arbennig o dda mewn cystadleuaeth traws gwlad o safon uchel iawn. Gorffennodd deg disgybl yn y deg uchaf ac felly byddant yn cystadlu yn Mhencampwraieth Cymru yn Aberhonddu yn fuan. Dyma'r nifer fwyaf o ddisgyblion o unrhyw ysgol yn nhim Eryri.

Dyma'r disgyblion fydd yn cymryd rhan yn ffeinal Cymru

Isabelle Shaw B7
Alaw Swyn B17
Efa Baines B9
Ceri Hickey B9
Iona Sloan Lewis B9
Huw Buck Jones B10
Abbi Parkinson B10
Georgia Parkinson B10
Callum O'Donnell B12
Catrin Donnelly B12

## Llwyddiant mewn cystadleuaeth gymnasteg



Llongyfarchiadau mawr i Iori Price blwyddyn 7 a ddaeth yn ail trwy Gymru mewn cystadleuaeth gymnasteg dros y penwythnos ar ddechrau Chwefror. Bydd yn awr yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth ryngwladol yn Birmingham ym mis Mehefin. Dymuniadau gorau a phob lwc bryd hynny Iori!

## Genethod blwyddyn 10 yn ennill twrnament pêl-rwyd




Ar Chwefror y seithfed enillodd tîm pêl-rwyd blwyddyn 10 dwrnament sy'n golygu byddant yn mynd ymlaen i gynrychioli Gogledd Orllewin Cymru yn Ffeinal Cymru yn Abertawe ym mis Mawrth.

Dyma'r canlyniadau ar y diwrnod:
Brynrefail 13 – David Hughes 10
Brynrefail 12 – Aberconwy 10
Brynrefail 9 – Dyffryn Nantlle 9
Brynrefail 15 – Berwyn 4
Brynrefail 16 – John Bright 7
Brynrefail 17 – Botwnnog 5

Cyflwynwyd medalau i aelodau'r tîm yn y gwasanaeth ar gyfer y disgyblion hŷn ychydig ddiwrnodau yn ddiweddarch. Da iawn genod a phob hwyl i chi yn Abertawe.

## Llwyddiant i Dim Hoci dan 14



Llogyfarchiadau mawr i dim Hoci dan 14 ar eu perfformiad gwych yn Nhwrnament Môn Arfon. Y genod wedi ennill y twrnament ac yn mynd ymlaen i Ffeinal Eryri.

## LLANBERIS Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

### Pentref Taclus




Daeth aelodau o'r grŵp cymunedol Pentref Taclus Llanberis at ei gilydd yn ddiweddar i gychwyn tymor newydd o sesiynau hel sbwriel wythnosol o gwmpas y pentref. Mae'r grwp ar fin cyrraedd y garreg filltir o dair blynedd o weithgareddau rheolaidd, gyda'u hymdrechion yn dangos sut y gellir balchder lleol gwneud gwahaniaeth mawr i gymuned.

Dywedodd Eric Bayliss ar ran y grŵp: "Mae'n anrhydedd gweithio gyda gwirfoddolwyr sydd yn credu mewn cadw'r pentref yn daclus i drigolion ac i ymwelwyr. Rydym yn deall bod arian yn brin y dyddiau hyn ac rydym yn cymryd balchder mawr mewn cadw'r pentref yn daclus. Diolch i bawb a gymerodd ran, yn enwedig y rhieni a'r plant a wnaeth ymuno gyda ni ar ddiwrnod oer ar fore Sul. Hefyd, hoffwn ddiolch i Gyngor Gwynedd am eu cefnogaeth a busnesau lleol am ddarparu'r te, coffi a bisgedi i gynhesu pawb."

Meddai'r Cynghorydd Kevin Morris Jones, Llanberis: "Mae yna lawer o ymwelwyr yn dod i Lanberis ac mae y rhan helaeth ohonynt yn parchu prydferthwch yr ardal, ond yn anffodus nid yw lleiafrif ohonynt yn defnyddio'r biniau sydd wedi'u darparu, sydd yn siomedig iawn. Mae Llanberis yn falch iawn o'r grŵp Pentref Taclus – mae eu hymdrechion yn cyfrannu gymaint tuag at gadw'r pentref fel cyrchfan rhagorol ac yn lle hyfryd i fyw."

Bydd y cyfarfod nesaf i gasglu sbwriel ar ddydd Sul, 24ain o Fawrth. Cyfarfod o flaen siop Menter Fachwen am ddeg y bore. O fis Ebrill ymlaen bydd y grwp yn cyfarfod bob bore Sul dros fisoedd yr haf. Dowch draw i gynnig help llaw.

### GWASANAETHAU CAPEL COCH

| | |
|---|---|
| Mawrth | |
| 3ydd | am 10yb: Mrs Nerys Griffith |
| 10fed | am 10yb a 5yh: Y Gweinidog |
| 17eg | am 10yb: Mr Huw Tegid Roberts |
| 24ain | 10.30yb: Oedfa Deulu |
| 31ain | 10yb Mr Dafydd Iwan |
| Ebrill | |
| 7fed | am 10yb: Parch Glenys Jones |
| 14eg | am 10yb a 5yh: Y Gweinidog |
| 21ain | am 10yb: Parch Robat M. Morris |
| 28ain | am 10.30yb: Oedfa Deulu |

### Cymdeithas Undebol Capel Coch

Ar Nos Fawrth, Chwefror y 5ed, cafwyd sgwrs a chyflwyniad Dvd gan Mrs Gwen Jones ar fywyd a gyrfa Mari Lewis, o Lanrug, a fu'n golofnydd wythnosol yn yr Herald Gymraeg am nifer o flynyddoedd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth y 5ed, am 7 o'r gloch yng nghwmni Eifion Roberts.

**Diolch** Dymuna Eifion Evans, Cynlas, ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag ato yn ei brofedigaeth ddiweddar. Gyda diolch hefyd i'r Parch John Pritchard am ei wasanaeth, ac i Gwmni E. W. Pritchard am eu trefniadau trylwyr ar ddiwrnod yr angladd.







# Pel-fasged Ysgol Dolbadarn




Llongyfarchiadau i ddisgyblion Blwyddyn 4 Ysgol Dolbadarn, Llanberis ar ennill gwobr efydd pel-fasged fach Pel- fasged Cymru drwy hyfforddiant Prif Hyfforddwr y Celts, Arwel Jones. Diolch i'r Prifathro, Gareth Fon Jones, am wahodd y clwb i'w ysgol ac i'r holl staff am eu cymorth a'u croeso cynnes. Mae'r Celts yn edrych mlaen i gyflwyno'r wobr efydd i weddill disgyblion yr Adran Iau yn ystod y flwyddyn



**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a hi yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

HYFFORDDIANT — Prayer Spaces in Schools — CYFLWYNIAD I

**MANNAU GWEDDI I BLANT**

- dulliau diddorol a chreadigol o gyflwyno gweddi i blant



**6.15 -8.30pm Nos Fercher, Mawrth 6ed 2019**

**Festri Capel Berea Newydd , Bangor LL57 2AJ**

Ers 2007 mae elusen Mannau Gweddi wedi bod yn arfogi arweinwyr i helpu plant ystyried ffydd, ysbrydolrwydd a chwestiynau mawr bywyd mewn ffyrdd diogel, creadigol a rhyngweithiol . Bydd y sesiwn yn ddefnyddiol i athrawon ysgol, athrawon ysgol Sul, gweithwyr ieuenctid Cristnogol, a gwirfoddolwyr Agor y Llyfr.

**Hyfforddwyr:**

Kirsty Williams (Cyd-lynydd Gogledd Cymru *Mannau Gweddi mewn Ysgolion*)

Jennifer Roberts (Gweithiwr Plant a Theuluoedd EBC, Dyffryn Conwy)

gwefan: prayerspacesinschools.com Bydd hwn yn sesiwn dwy-ieithog. Darperir bwyd ysgafn ar gychwyn y sesiwn. Anfonwch enwau o flaen llaw i delyth.oswy@ebcpcw.cymru
07986932261



**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk

# Ysgol Waunfawr



## Gweithgareddau'r Urdd dros y tymor

Cynhaliwyd amrywiol weithgareddau dros y tymor megis addurno bisgedi i ddathlu Diwrnod Santes Dwynwen, noson Bingo a sesiwn hwyl yn yr Hwylfan yng Nghaernarfon. Yn ystod y mis nesaf byddwn yn ymweld a Chaergylchu ac yn cael Noson Ffilm.



## Sioe Mewn Cymeriad

Bu'r Cwmni Mewn Cymeriad yn perfformio sioe fywiog am daith y Mimosa i Batagonia i flwyddyn 3 a 4 a oedd yn cyd- fynd â'u gwaith thema.




## Dymuniadau Gorau

Cynhaliwyd noson ffarwelio i Mr Downey yn y Clwb Rygbi yng Nghaernarfon ddiwedd mis Ionawr.Cyflwynwyd siec o £200 gan Ysgol Waunfawr i Ysgol Gymraeg y Gaiman ble bydd Mr Downey yn dysgu o fis Chwefror. Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig ddydd Gwener Ionawr y 25ain i ffarwelio gyda Mr M Downey a chyflwynwyd rhodd iddo. Rydym i gyd yn dymuno'r gorau iddo ym Mhatagonia.

Rydym hefyd yn llongyfarch Anti Nia am gael swydd gyda'r NHS yn Ysbyty Gwynedd. Hoffem ddiolch iddi am ei gwaith dros y 14 mlynedd a fu yma ac rydym yn dymuno'r gorau iddi hithau i'r dyfodol. Fe fydd yn rhyfedd iawn yma heb y ddau ohonyn nhw.



## Prosiect Ysgolion Creadigol

Llwyddodd yr ysgol drwy gydweithio gydag Ysgol Bontnewydd i dderbyn Grant Ysgolion Creadigol Arweiniol eto eleni er mwyn hybu sgiliau llafar Cymraeg a Rhif disgyblion blwyddyn 3 a 4. Bu dau artist sef Jo Steel a Gwion Aled yn cynnal sesiynnau bob ddydd Llun dros y tri mis diwethaf. Uchafbwynt y prosiect oedd y Dathliad pan gafodd rhieni y disgyblion y cyfle i weld eu gwaith yn neuadd yr ysgol ddydd Llun cyn yr hanner tymor.
Mae'r Ty Crwn bellach wedi ei orffen ar gae'r ysgol.



## Blwyddyn Newydd Tsieineaidd

Dathlwyd y flwyddyn newydd Tsienieaidd drwy gael cinio arbennig ar Chwefror y 5ed. Diolch i ferched y gegin am baratoi y fwydlen ac i ddosbarth Mynydd Mawr am adduro'r neuadd gyda lanteri lliwgar.

## Diwrnod Miwsig Cymru

Dathliwyd y diwrnod ym mhob dosbarth- bu i'r disgyblion fwynhau gwrando ar nifer o wahanol fandiau ac artistiaid Cymraeg. Lluniwyd posteri amrywiol a chafwyd cwis dyfalu'r gân.

## Diwrnod Santes Dwynwen

Dathlwyd diwrnod Santes Dwynwen drwy gael gwasanaeth arbennig gan y Cyngor Ysgol. Peintiwyd wynebau gyda chalonnau bach coch a chwaraewyd gem 'Mr a Mrs' yn y pnawn. Roedd pawb werth eu gweld yn eu dillad crand.

## John Roberts – Ty Hen

Diolch hefyd i Mr John Roberts, Ty Hen yn rhoi sgwrs i flwyddyn 3 a 4 am Batagonia. Cafodd y disgyblion gyfle i weld lluniau o'r Gaiman a'r ysgol ble fydd Mr Downey yn dysgu.

# *Parhad* WAUNFAWR

**Clwb 300** Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £30: Mr Norman Williams, Llidiart Wen; £20: Mrs Iona Overbury, Bryn Gwenallt; £10: Mrs Annie Thomas, Gilfach.

**Merched y Wawr** Croesawodd Anita, ein Llywydd, ni a Gareth Roberts, y gŵr gwadd o Fenter Fachwen, yn gynnes i'r cyfarfod nos Iau, Ionawr 24, gan ddymuno Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Ymddiheurodd dros yr aelodau oedd yn methu bod yn bresennol. Llongyfarchodd Cadi a John ar ddod yn nain a thaid i ŵyr bach newydd, Owi, mab bach newydd Heddus ac Iwan a brawd bach i Mali ac Anni.

Cyflwynodd Anita Gareth Roberts gan ddweud ei bod wedi ei glywed yn sôn am ddatblygiad pentref Waunfawr ychydig amser yn ôl a'i fod yn hynod ddifyr. "A dyna fydd hi heno hefyd,' meddai, ac ni chawsom ein siomi. Roedd yn sgwrs ddifyr iawn. Aeth â ni i Gefn Du a sôn am lwybr taith y pererinion yno. Yno hefyd mae Hafod Olau, cartref John Evans a aeth ar daith i America i chwilio am yr Indiaid Cymreig a oedd yn ddisgynyddion i'r Tywysog Madog ab Owain o Wynedd. I lawr â ni o'r mynydd at Bryn Beddau a chrybwyllodd y frwydr rhwng y Rhufeiniaid a'r brodorion. Cawsom sgwrs fach am Dafydd Ddu Eryri sydd â charreg uwchben drws ei gartref i gofio amdano. Yna draw â ni i Dreflan a chyrraedd Garreg Fawr. Yn y flwyddyn 1544 codwyd tŷ moethus ar fuarth y fferm yn gartref i'r ffermwr a'i deulu a'i enwi yn 'Garreg Fawr' ar ôl craig tu ôl i'r tŷ. Fe'i hadeiladwyd yn gadarn gyda darnau sylweddol o lechfaen a meini o'r mynydd. Yn 1976 tynnwyd y tŷ i lawr gan arbenigwyr Amgueddfa Werin Cymru a'i gludo i Sain Ffagan. Yna, yn 1984, fe'i ailgodwyd yno. Roedd ein diolch yn fawr iawn i Geraint am daith ddifyr.

Soniodd Anita am y gweithgareddau a'r cystadlaethau mae Mudiad Merched y Wawr wedi eu trefnu. Mae dyddiad cau ar gyfer pob gweithgaredd a chystadleuaeth felly cysylltwch ag Anita neu Heulwen i gael y manylion os oes diddordeb.

Janet a Shirley oedd yn gyfrifol am y baned a'r raffl a diolchwyd iddynt hwythau. Byddwn yn cyfarfod am 7 o'r gloch yn yr Antur nos Iau, Chwefror 28, ac yn mwynhau dathlu Dydd Gŵyl Dewi.

**Gwasanaethau Capel y Waun am fis Mawrth**

3: Parch Dafydd Lloyd Hughes

10: Parch Eifion R. Williams

17: Mr Robert Morris, Penygroes

24: Dan ofal yr aelodau

31: Mr John Roberts

**Symud Aelwyd** Dymunwn bob hapusrwydd i Maureen, Bryn Peris, sydd wedi symud aelwyd o'r Waun i ardal yng nghyffiniau Llundain. Cartrefodd yma am nifer o flynyddoedd a bu'n hapus yn ein plith ond mae yn awr wedi symud yn nes at ei theulu. Bydd yn braf ei chroesawu yn ôl yma i ymweld â'i ffrindiau.

**Urdd Gobaith Cymru** Daeth yn gyfnod Eisteddfodau'r Urdd a bydd yr Eisteddfod Cylch i gystadleuwyr dan 12 oed yn cael ei chynnal yn Neuadd Ysgol Uwchradd Brynrefail dydd Sadwrn, Mawrth 9fed. Dymunwn yn dda i bob un fydd yn cystadlu yn unigol ac i'r partion. Dymunwn yn dda hefyd i'r plant hŷn fydd yn cystadlu pan ddaw eu tro hwythau.

Ymddiheuro Yn rhifyn Eco mis Chwefror, fe ysgrifennais mai yn rhif 2 Ael-y-Bryn yr oedd Rosie Brown yn byw, ond yn rhif 2 Bryn Golau y mae wedi ei magu. Rwyf yn ymddiheuro i ti, Rosie.

**Adref o'r Ysbyty** Croesawn Mrs Maggi Jones, Glasfryn; Mrs Glenys Pierce, Bryn Gwyn a Mrs Emsul Jones, Bro Waun, adref o'r ysbyty. Anfonwn ein cofion cynnes atoch a dymunwn wellhad buan i'r tair ohonoch. Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Gwendoline Rowlands sydd ddim wedi bod yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae yn derbyn gofal yng Nghartref Preswyl Maesincla.

Yn yr Ysbyty Anfonwn gofion cynnes a phob dymuniad da am wellhad buan i Carwyn Humhreys, Ael-y-Bryn sydd yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd.

Meddyliwn hefyd am Llio Mair, merch fach Rachel, sydd yn yr ysbyty ar hyn o bryd. Edrychwn ymlaen i dy weld yn gwella ac yn cael dod adref, Llio fach.

**Cydymdeimlad** Daeth colled drist i ran Idris ac Iris Evans, Stad Croes y Waun, yn eu profedigaeth o golli brawd a brawd yng nghyfraith. Roedd y diweddar Eurwyn Evans o Rhuthun hefyd yn frawd yng nghyfraith i Eurig a Gill Wyn, Y Frenni.

Daeth tristwch i ran Mrs Olwen Owen, Noddfa, o golli ei nai, Melfyn, a oedd yn byw yng nghyffiniau Caer. Mab i'w diweddar chwaer, Rhiannon, a oedd yn byw yng Nghaernarfon.

Yn dawel yn Ysbyty Eryri bu farw Harold Peters, gynt o Ty'n Cae Newydd ond yn awr yn byw ym Mhenygroes. Cydymdeimlwn â'i wraig, Sylvia, a'r plant, Chris, Rhian, Bryn a Tim a'u teuluoedd ac â'i frodyr a'u teuluoedd yn eu colled.

Daeth y newyddion trist i ran Roy, Cynefin, am farwolaeth ei frawd, Peter, brawd yng nghyfraith Eirwen a ewythr Kylie a Kristy a'u teuluoedd. Cydymdeimlwn â chi yn eich profedigaeth.

# GWEFAN NEWYDD CÔR MEIBION CAERNARFON YN RHAN O YMGYRCH I DDENU AELODAU NEWYDD

Mae Côr Meibion Caernarfon wedi lansio gwefan newydd sbon, gyda'r cyfeiriad www.cormeibioncaernarfon.org yn aros yr un peth ag o'r blaen.

Meddai Alwynne Jones, Cadeirydd y Côr: "Un o brif nodau'r wefan newydd yw denu aelodau newydd. Mae'n egluro mor hawdd yw ymuno â chantorion tre'r Cofis, a'r croeso a'r pleser a geir o wneud hynny.

"Rydym hefyd am weld mwy o bobl leol ac ymwelwyr yn dod i'n hymarferiadau. Byddwn yn cwrdd am 7.45pm bob nos Fawrth yn Galeri, Caernarfon. Mae'r adloniant yn gwbl ddi-dâl a bydd pawb yn mynd adref gydag atgofion melys, yn enwedig os ydynt yn prynu CD!"

Ychwanegodd Cadeirydd y Côr: "Mae cwmni Delwedd wedi gwneud gwaith gwych yn diweddaru'n gwefan. Mae'n gweithio'n slic ac yn dangos pob agwedd ar waith y côr."

Meddai Aled Roberts, un o gyfarwyddwyr cwmni Delwedd, sydd hefyd un o is-lywyddion Côr Meibion Caernarfon: "Defnyddiwyd y dechnoleg ddiweddaraf wrth lunio'r wefan newydd fel ei bod yn gweithio'n hwylus ar gyfrifiadur, llechen neu ffôn symudol.

"Fel cwmni o'r dref, gyda'n swyddfa yn Galeri, rydym yn falch dros ben o'n cysylltiad hir â Chôr Meibion Caernarfon."

## Croeso cynnes i gynrychiolwyr Cyngor BIC




Roedd Menter Gymdeithasol Antur Waunfawr yn falch iawn o groesawu cynrychiolwyr o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig draw, i ddangos y gwaith pwysig mae'r elusen yn wneud wrth gefnogi unigolion gydag anableddau dysgu.

Sefydlwyd y Cyngor Prydeinig-Gwyddelig (BIC) ugain mlynedd yn ôl i ddarparu fforwm ar gyfer ymgynghori a chydweithredu ar ynysoedd Prydain ac Iwerddon, a hyrwyddo perthnasau ymarferol a phositif rhwng y bobl ar yr ynysoedd hyn.

Roedd yr ymweliad ag Antur Waunfawr yn rhan o ymweliad ehangach â Gogledd Cymru gan sector Cynhwysiant Cymdeithasol BIC, ac yn caniatáu i swyddogion o'r arfordiroedd hyn i ymweld ag enghreifftiau o fentrau cymdeithasol rhagorol ac arloesol yn y rhanbarth.

Mae Antur Waunfawr, sy'n dathlu 35 mlwyddiant eleni, yn fenter gymdeithasol flaenllaw yn yr ardal, sy'n darparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i unigolion ag anableddau dysgu yn eu cymuned. Ar hyn o bryd, mae'r elusen yn cyflogi dros 100 o staff ac yn cefnogi 67 o unigolion ag anableddau dysgu.

Ymwelodd cynrychiolwyr y cyngor â thri o brosiectau Antur Waunfawr; Beics Antur, sef busnes llogi beics hygyrch wedi'i leoli yng Nghaernarfon; Warws Werdd, prosiect ailddefnyddio dodrefn a dillad; a'u prif safle yn Waunfawr sy'n gartref i gaffi, parc chwarae hygyrch, gerddi a siop grefftau.

Dywedodd Menna Jones, prif weithredwraig Antur Waunfawr: "Roedd hi'n bleser croesawu cynrychiolwyr o'r BIC, a chael dangos y prosiectau cyffrous sy'n digwydd yma yn Antur Waunfawr. Rydyn ni'n rhoi pwyslais mawr ar wella iechyd a llesiant, ac roedd yn wych cael rhannu ein gweledigaeth gyda'r aelodau, yn enwedig ein cynlluniau ar gyfer ein prosiect Beics Antur ym Mhorth yr Aur yng Nghaernarfon, a fydd yn darparu cyfleoedd beicio cynhwysol a 'Porth Llesiant' ar gyfer y gymuned leol. "

Dywedodd Jerry O'Donovan, cyd-bennaeth BIC: "Roeddem wrth ein bodd i gael cyfle i ymweld ag Antur Waunfawr a mwynhau eu lletygarwch cynnes a'u mewnwelediad clir o sut mae rhedeg menter gymdeithasol lwyddiannus.

"Gellid defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r ymweliad hwn i wella polisi o fewn aelodau'r Cyngor, a bydd yn llywio ein gwaith wrth nodi cyfleoedd cydweithio pellach mewn maes gwaith sy'n bwysig i'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig.".

# *Adnewyddu Canolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru a newid dros-dro yn y maes parcio*

Bydd adeiladau dros dro yn cael eu gosod yn y maes parcio wrth yr adeilad presennol. O ganlyniad, byddwn ni wedi cau rhannau o'r maes parcio yn ystod cyfnodau o 18 Chwefror ymlaen wrth i waith cysylltiedig gael ei wneud i baratoi'r tir ar gyfer yr adeiladau a fydd yn cael eu danfon ganol mis Mawrth. Bydd y gwaith o osod yr adeiladau dros dro yn dod i ben ddiwedd mis Mawrth – mewn da bryd cyn i dymor teithiau 2019 gychwyn.

Ar yr un pryd â'r gwaith paratoi hwn, bydd byrddau'n cael eu codi o amgylch y ganolfan ymwelwyr flaenorol. Er mwyn i'r rheini sy'n dod ar ein teithiau allu mynd ar ein bysiau'n ddiogel wrth y ganolfan dros dro, bydd llif y traffig yn y maes parcio yn cael ei wrthdroi. Byddwn yn diweddaru'r arwyddion yn y maes parcio a'r marciau ar y ffordd er mwyn dangos y newidiadau.

Mae gwaith adnewyddu'n cael ei wneud yng Nghanolfan Ymwelwyr Mynydd Gwefru er mwyn creu ased deniadol a modern i'r gymuned ac i dwristiaeth, gyda chyfleusterau a fydd yn diwallu anghenion y defnyddwyr yn well.

Os oes gennych gwestiynau am y prosiect adnewyddu sy'n mynd ymlaen, neu os ydych chi am gael rhagor o wybodaeth am y Ganolfan Dros Dro i Ymwelwyr, cysylltwch â:
communityhelp@ electricmountain.co.uk

## DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870292

**Tymhorau'r Flwyddyn** Mae yn anodd credu bod dau fis wedi myd ers y Nadolig a'n bod ni erbyn hyn ar ddiwedd y mis lleiaf. Nid wyf yn hoffi mis Chwefror, er ei fod yn llai na'r misoedd eraill. Y mae yn fis reit beryg pryd yr ydym yn gweld colledion trwm o fewn y fro, pryd y mae'r gerddi a phob dim allanol yn edrych yn ddigon blêr a thlodaidd. Mis pan fyddwn yn cael pob math o dywydd, eira, glaw a gwyntoedd cryfion, ac y mae yn berffaith wir eleni a'r tywydd ar adegau yn gallu bod yn andros o oer. Dim digon o wres i'w gael a'r bore a'r nos yn dywyll ac yn gwneud codi o'r gwely yn anodd. Yr unig beth o blaid y mis yma yw mai tua'i ganol rydym yn cael edrych ymlaen am y gwanwyn gan bod y dydd yn dechrau ymestyn. Os caf olchi llestri te cyn rhoi'r golau ymlaen mae hyn yn profi imi bod y gwanwyn yn agosau. O'r tu allan mae pethau yn edrych yn well gan fod natur yn dechrau ymddangos yn y tir a phob dim i'w weld yn dechrau deffro a'r rhai sydd wedi dioddef efo'u iechyd yn ystod y gaeaf yn gallu edrych ymlaen am gael mynd allan a chael dipyn o awyr iach.

Pa ryfedd i'r bardd o Lanberis , sef y diweddar annwyl T. Rowland Hughes, ganu 'Mi wellaf pan ddaw'r gwanwyn'. Mae yn hollol wir a gobeithio y cawn weld rhai o'r ardal yn cerdded y fro erbyn y tymor nesaf. Carwn ddymuno gwellhad buan a chyfle i fwynhau gwell iechyd erbyn y gwanwyn i bawb sydd wedi bod yn cwyno yn ystod y gaeaf.

**Trwsio y Ffyrdd** Rhyw dair wythnos yn ôl fe fu i Gyngor Gwynedd benderfynu, ar ôl hir amser, ei bod yn rhaid iddynt fynd ati i drio gwneud gwelliannau i Fachwen, hynny ydi o'r hen ysgol i Ben Llyn. Roedd ganddynt ddigon o ddynion ac arfau at y gwaith. Mae yn anodd credu eu bod wedi trafferthu dod yno o gwbwl gan mai gwastraff amser oedd y cyfan gan mor bathetig y mae'r gwaith yn edrych. Does raid i neb ond edrych o'r top at Buarth Newydd i weld yr ychydig sydd wedi ei wneud a faint sydd heb ei wneud. Mae mwy o lawer heb ei wneud. Mae yn edrych fel stampiau post yma ac acw wedi cael eu hamgylchynu gan dyllau mawr. Dyma be rydwyf yn ei alw yn wastraff llwyr o amser ac arian. Credaf fod y trigolion sydd yn cartrefu yn y fan yma o'r ardal yn haeddu gwell, fe fydd y stampiau yma i gyd wedi mynd cyn yr amser yma y flwyddyn nesaf. Os am wneud gwaith o gwbl, beth am ei wneud yn iawn? Mae trigolion Fachwen, fel pawb arall, yn talu y dreth, sydd yn codi o flwyddyn i flwyddyn a neb i'w weld yn ennill dim o hynny.

**Dymuniadau Da** Dymunwn yn dda i Rwffus, 6 Bro Elidir, sydd wedi mynd yn ddisgybl i Fangor gan bod Ysgol Cwm y glo wedi cau.

**Croeso** Braf yw cael estyn croeso i Gethin Jones i'n plith. Mae Gethin yn byw am rhyw ddwy flynedd hefo'i daid a'i nain yn 5 Bro Elidir. Mae Gethin yn fab i Mr a Mrs Dafydd Wyn Jones ac mae Dafydd yn gweithio hefo'r fyddin ar ac hyn o bryd yn yr Almaen. Gan bod Dafydd yn symud o le i le mae Gethin wedi dod at Taid a Nain er mwyn cael cysondeb i'w addysg. Y mae yn mynd i'r Coleg Technegol ac Ysgol Friars ym Mangor. Er cymaint y symud mae Dafydd a'r teulu wedi ei wneud mae yn rhaid eu canmol am siarad Cymraeg yn y cartref. Er bod addysg Gethin wedi bod yn Saesneg ar hyd y blynyddoedd mae o yn gystal Cymro a neb ac yn gallu siarad yr iaith yn rhugl, heb acen Saesneg o gwbl. Mae ganddo chwaer o'r enw Anest ac y mae hithau yn Gymraes hefyd.

Da iawn chi, Gethin, a chanmoliaeth fawr i dy rieni am gadw'r iaith Gymraeg yn fyw a hynny mewn llawer gwlad.

**Dathlu Pen-blwydd** Llongyfarchiadau mawr i Miss Mary Elisabeth Foulkes, sef Mair i ni yn ardal Dinorwig ond sydd yn byw ar hyn o bryd yn Bryn Hyfryd, Penisarwaun, gynt o Garnedd Wen, Fachwen. Mae Mair wedi cael dathlu ei phen-blwydd yn 90 ar 16 o Ionawr ac wedi cael parti hefo'i ffrindiau yn y cartref ac wedi mwynhau ei hun. Roedd Mair a'i rhieni yn aelodau ffyddlon o Eglwys y Santes Fair Dinorwig a Mair yn organyddes yn yr Eglwys am flynyddoedd lawer a, cyn iddi gael car, wedi cerdded hefo'i thad o waelod Fachwen i'r eglwys bob Sul. Pwy fuasai'n ei wneud heddiw? Mair, gobeithio y cei bob bendith ac iechyd i fwynhau llawer blwyddyn arall a gobeithio am gerdyn gan y frenhines.

**Yn Ystod yr Eira** Dyma pryd y daeth i'n sylw nad oedd dim halen na bocs gwerth dim i'w ddal ar dop allt capel a rhaid oedd ffonio ein cynghorydd. Daeth i ymweld â'r sefyllfa ei hun ac erbyn y diwrnod wedyn Cyngor Gwynedd yn derbyn halen gan y Cyngor Cymuned a bocs i roi yr halen ynddo mewn llai na pymtheg awr. Dyna beth mae yn rhaid ei ganmol, gwasanaeth arbennig o dda.

Mae yn rhaid inni fel ardal dalu ein dyled i Elfed, ein Cynghorydd Cymuned a Chyngor Gwynedd am wneud y gwaith mor sydyn a dirwgnach. Mawr ddiolch i ti. Gresyn na fuasai y drafnidiaeth gyhoeddus yr un mor barod i ddod i fyny i'r ardal. Dim ond i un beidio â dod ddaw yr un arall wedyn er i'r ffordd fod yn glir. Yn ystod yr eira diwethaf diwrnod a hanner a fuont cyn dod i'r ardal, maent yn hollol annibynadwy.


**Cofion** Anfonwn fel ardal ein cofion annwyl at y rhai sydd yn cwyno. Cofion gorau fel ardal i Mrs Megan Morris, Minffordd gynt, ond ym Mhlas Garnedd, Llanberis ar hyn o bryd.

**Y Capel Olaf yn Neiniolen wedi ei Werthu** Ar ôl bod ar werth am dipyn o amser, o'r diwedd mae drws capel Ebenezer wedi cau ac wedi ei werthu a mwyach nid oes yr un capel yn yr ardal allan o ddeg ac un Eglwys ar agor i addoli.

Y mae un Eglwys yn dal yn agored yn Llandinorwig. Mae'r sefyllfa yn drist iawn. Mae llai na dwsin o blant yn mynychu yr Ysgol Sul, colled fawr iddynt, ac felly mae'n rhaid gofyn pa ddyfodol sydd i grefydd yn yr ardal.

Erbyn hyn mae hynny o Annibynwyr oedd yn dal i addoli yn Ebenezer hefo aelodau Cefn y Waun yn cydaddoli yn Nhŷ Elidir. Erbyn hyn yr ydym wedi setlo i lawr yno. Mae o yn eiddo i Fenter Fachwen, lle y mae'r anabl yn cael cymorth a gofal. Felly credaf ein bod o gymorth iddynt hwy a diolch am allu gwneud hynny. Yr ydym yn gwmni reit hapus ac yn berffaith fodlon hefo'r trefniadau ac, yn ystod y tywydd oer, yr ydym yn gynnes braf ac yn gartrefol yno.

Tipyn yn fychan yw'r ystafell ond yn fwy na digon i hynny sydd yn addoli ynddi. Tybed faint fydd yn addoli yn Neiniolen ymhen pymtheng mlynedd?


GWAITH COFFAOL
LLANRUG
Ffôn Gwaith
(01286) 672898
Cartref
(01286) 871833
Symudol 07778 127394
Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

*Dylan Griffith*
*Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS-Y-WAEN PENISARWAUN
*Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol*
*24 Awr y Dydd*
*Capel Gorffwys Preifat*
*Yn Gwasanaethy Yr Holl Ardal*
Ffoniwch [redacted] ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

## Ysgol Gymuned Penisarwaen



Croesawyd Mrs Susan Williams, Cynllun EFE, i gynnal Gwasanaeth i'r ysgol gyfan bnawn dydd Gwener, Chwefror 8fed. Diolch yn fawr iddi am drefnu i ddod yma yn rheolaidd.

**Ymweliadau** Treuliodd disgyblion hynaf yr ysgol fore diddorol ar lannau llyn Padarn yn ddiweddar. Cafwyd cyfle i ddychwelyd y Torgoch a fu'n datblygu mewn tanc yn yr ysgol i'w cynefin naturiol yn y Llyn. Braint oedd bod yn rhan o'r cynllun i geisio sicrhau ffyniant y pysgodyn arbennig hwn a'i ddiogelu ar gyfer y dyfodol.

Daeth Mr Gareth Roberts, Menter Fachwen i'r ysgol bnawn Iau, Chwefror 14eg, i ddysgu disgyblion am hanes y pentref. Cymerodd y disgyblion ddiddordeb mawr yn yr hyn oedd ganddo i'w ddweud a chafwyd cyflwyniad diddorol iawn. Llwyddodd i danio brwdfrydedd y disgyblion ac maent yn chwilfrydig nawr i fynd i ddysgu mwy am hanes ein pentref. Gobeithiwn allu manteisio ar wybodaeth a gwasanaeth Mr Roberts dros y cyfnod nesaf. Diolch yn fawr iddo am roi ei amser i ddod yma i'r ysgol.

Diolch i PC Dylan Pritchard am drefnu i ddod yma dydd Iau, Chwefror 21ain, i roi sgwrs ar ddiogelwch i'r disgyblion i gyd yn eu tro. Mae'r plant i gyd wrth eu bodd yn ei groesawu bob amser.

**Cinio Thema** Diolch i Anti Carolyn am baratoi cinio Tsieineaidd blasus dydd Iau, Chwefror 7fed. Roedd pawb wedi mwynhau'n fawr iawn.

Bydd Cinio i ddathlu Gŵyl Ddewi yn cael ei baratoi dydd Mercher, Mawrth 6ed.

**Myfyriwr** Croesawyd Mr Tomos Jones i'r ysgol am wythnos o arsylwi rhwng Chwefror 18fed ar 22ain. Bydd yn dechrau yma ar gyfnod o ymarfer dysgu dydd Llun, Mawrth 4ydd.

**Ysgol Sul Bosra** Mae'n galonogol iawn cael estyn croeso cynnes i aelod bach newydd arall i'r Ysgol Sul. Mae Anest yn gartrefol iawn gyda'i ffrindiau bach, Myfi, Joe ac Elis ac yn mwynhau gwrando ar y storiau a chael gwneud lluniau. Wedi pythefnos o egwyl bydd yr Ysgol Sul yn cyfarfod am 10.00 ar Fawrth 3ydd. Croeso cynnes o hyd i aelodau newydd.

**Pwyllgor Neuad Gymuned** Tynnwyd Clwb Cant Chwefror a'r enillwyr yw: Bethan Jones a Steven Walker. Bydd Leslie Larsen yn falch o dderbyn arian aelodau o £6 y flwyddyn, mae archeb banc ar gael ac mae croeso mawr i aelodau newydd ymuno. Mae'r Clwb Cant yn help tuag at gostau rhedeg y Neuadd Gymuned. Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol a chafwyd y cofnodion yn rhai cywir a chafwyd adroddiad manwl gan y Trysorydd.

Byddwn yn dathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth 5ed am 2.00 o'r gloch yn Y Neuadd Gymuned gyda eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau'r pwyllgor. Mae Mawrth 5ed yn digwydd bod yn Ddydd Mawrth yr Ynyd, dydd Mawrth Crempog, felly bydd paned a chrempog i ddilyn. Pris £2 a bydd raffl ar werth am £1. Estynnir croeso mawr i chi rieni, teulu a ffrindiau. Dowch i ddathlu dydd ein Nawddsant.

Nos Iau, Ebrill 11eg am 6.00 yn y Neuadd Gymuned trefnir Disgo Pasg o 6 tan 7.30. Pris £1 a bydd cŵn poeth ar werth a raffl. Bydd cyfle i'r plant addurno Het Basg os dymunir neu wisgo gwisg ffansi.

**Diffibrilydd** Yn dilyn cyfarfod nos Lun, Ionawr 4ydd, ar gyfer cael diffibrilydd i'r pentref ac ar gyfer Waen bydd yr aelodau yn rhannu llythyr dwyieithog yn gofyn yn garedig am gyfraniadau ariannol. Bydd y llythyrau yn cael eu rhannu i aelodau'r pwyllgor nos Lun, Mawrth 4ydd, am 7.00 yn y Neuadd Gymuned. Hyderir y ceir yr un gefnogaeth barod fel a gafwyd yn y gorffennol wrth gasglu tuag at y Sganiwr ac Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol.

**Eisteddfod Bentref 2019** Cynhelir yr Eisteddfod eleni ar nos Fercher, Gorffennaf 10fed, am 6.00. Estynnwyd croeso cynnes iawn i Leona fel aelod o'r pwyllgor. Cynhelir Pwyllgor nos Lun, Mawrth 11eg am 7.00 yn y Neuadd Gymuned i ddewis testunau a thrafod gweithgareddau i godi arian. Edrychir ymlaen am eisteddfod lwyddiannus eto eleni.

**Pris yr Eco** O fis Ebrill ymlaen bydd pris yr Eco yn codi i £1 y rhifyn. Y tâl ymlaen llaw fydd £10 (sy'n cynnwys un rhifyn am ddim). Yn sicr mae 32 o dudalennau yn llawn newyddion, hanesion ac erthyglau yn fargen dda iawn. Bydd y dosbarthwyr Liz Jones ac Ann Ifans, yn falch o gasglu'r taliadau ac yn diolch am eich cydweithrediad.

**Llongyfarchiadau Ysgol Dolbadarn** Dymuna pawb yn y pentref longyfarch Mr Gareth Fôn Jones (cyn-bennaeth Ysgol Gymuned Penisarwaun) a'i staff a'r plant ar ennill 'Carol yr Ŵyl;. Dyfarnwyd y côr yn fuddugol drwy Gymru. Rhagorol wir!

**Cronfa Pensiynwyr Penisarwaen**

**Pêl Bonws** Loteri Enillydd Mis Ionawr oedd Mrs Sioned Jones Cwm y Glo gyda rhif 45 Llongyfarchiadau!

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Llanddeiniolen

Crynodeb o Gofnodion Cyfarfod yr 8fed Ionawr 2019

Cynllun Busnes a Chyllid
Gan fod rheolau penodol bellach mae'n rhaid i'r Cyngor benodi symiau penodol ar gyfer gwariant sy'n ymwneud a chyfrifoldebau statudol y Cyngor ac unrhyw brosiect penodol o dan sylw, gall hyn fod dros gyfnod mwy na'r flwyddyn briodol. O reidrwydd, mae cryn gostau ar weinyddiaeth Y Cyngor yn cynnwys, cyflog, adnoddau, cyfarpar y clerc, polisi yswiriant i'r Cyngor a thâl aelodaeth y Gymdeithas Un Llais Cymru a'r SLCC, sy'n warchodwyr i'r Cynghorau. Yn statudol mae'r Cyngor yn gyfrifol am lwybrau, goleuadau stryd, graeanu halen (ar gost o £3750 llynedd) , cysgodfannau bws ac wrth gwrs dyrannu rhoddion oddeutu £5000 y flwyddyn i gymdeithasau, clybiau, eisteddfodau, neuaddau pentrefi ayyb. Gan fod y Plwyf yn cynnwys y pentrefi, Bethel, Rhiwlas, Deiniolen, Brynrefail, Seion, Clwt y Bont, Dinorwig a Phenisarwaun, gellir gweld y galw sydd. Anochel hefyd yw cadw'r ddesgyl yn wastad gyda'r fath alw. Mae'r pwyllgor er engraifft yn ceisio rhoddi cysgodfan ar rota i'r pentrefi, sydd ar gost o £3000 yr un. Gall un golau stryd ddenu anfoneb o £1500
Mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am gyfraniad tuag at gostau etholiadau. Mae'n wir ein bod yn torri gwair ar y llwybrau sydd yn cael eu defnyddio fwyaf 3 gwaith y flwyddyn. Nid ydi'r Cyngor yn derbyn ad-daliad am hyn gan Cyngor Gwynedd mwyach oherwydd toriadau, felly mae hynny yn gallu rhoi cost rhwng £2000 - £3000 ar Y Cyngor Cymuned.
Wedi trafod a gweld yn glir, ni ellir gweld unman i allu tynnu yn ôl ar y gyllideb. Mae hefyd yn wir fod Cyngor Gwynedd o bosib yn mynd i roi mwy o wasaneuthau yn nwylo y Cynghorau Cymuned, gan roi'r cyfrifoldeb am wasanaethau i'r cynghorau Cymuned. Penderfynwyd yn gytun i dderbyn y Gyllideb o 3 blynedd yn ei chyfanrwydd, gan fedru manteisio i adolygu yn flynyddol. Felly, penderfynwyd gosod praesept o £31,800. Bydd hyn yn golygu taliad o oddeutu £17.31 i rhywyn yn Band D.

Cofnodion Cyfarfod 4ydd Rhagfyr 2018
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir

Materion o'r Cofnodion
Diffib – Dywedwyd fod 2 diffriblydd wedi ei osod yn eu lle yn Deiniolen, ac rydym hefyd ar ddallt fod diffriblydd Rhiwlas wedi ei osod yn y ciosg. Diolch i R Hefin Williams am drefnu I dderbyn drws y ciosg a sicrhau ei fod wedi ei osod yn ei le. Mae Grwp Llywio ym Mhenisarwaun a Brynrefail ar gyfer cael diffib ar y gweill. Penderfynwyd gyrru gair o ddiolch i Bryn Roberts am ei ymdrech yn y maes yma ac am roi o'i amser.
Llwybrau – Derbyniwyd lythyr o Gyngor Gwynedd ynglyn a llwybr troed rhif 78 Ffordd Perthi a'r gawell wedi ei hatgyweirio. A Llwybr 74 Carreg y Garth, lle nad oes posib i Cyngor Gwynedd rhoi amserlen i atgyweirio y llwybr hwn oherwydd diffyg cyllideb cynnal a chadw. Fodd bynnag, yn y cyfamser, gofynwyd I'r clerc ysgrifennu yn rhoi cais am arwydd "Dim Beicwyr" ar gychwyn y llwybr tan y bydd wedi cael ei atgyweirio.

Cae Goronwy – Dywedodd cynghorydd ei fod wedi cael cŵyn am gorn simdde ar y llwybr yn nadu pobl fynd ar y llwybr, ac yn hytrach eu hannog i ddefnyddio y llwybr cwrteisi. Gofynwyd i'r clerc rhoi gwybod i'r Cyngor a holi am unrhyw ddatblygiad pellach ar y mater.

Gohebiaeth a materion eraill
Ail Strwytho Canolfannau Iaith Gwynedd – Mae'n ymddangos fod Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn ymgynghori ar ail-strwythuro y canolfannau hyn. Gofynwyd i'r clerc yrru llythyr ar ran y cyngor yn anfon i wrthwynebu hyn.

Cynllunio
Ceisiadau a dderbyniwyd yn ystod y mis:
Tyn y Buarth Brynrefail –Dymchwel modurdy presennol, a chodi modurdy Newydd.
Tir ger Monfa Cottage
Rhiw Goch Clwt y Bont – Materion a gadwyd yn ôl ar gyfer datblygiad preswyl o 17 tŷ
Tyddyn Berth, Bethel – Addasiadau ac estyniadau i adeiladau allanol
Rhiwen, Deiniolen – Estyniadau a newidiadau ynghyd a chodi modurdy

O gwmpas y Bwrdd
Clwt y Bont – Dipyn o gwyno ynglyn a ysbwriel yn cael ei lechio ar y lon gwaelod ar y ffordd allan o'r pentref. Elfed yn delio gyda hynny ar hyn o bryd.
Cysgodfanau Bws – Yn dilyn cael fandaliaeth a graffiti ar gysgodfannau Brynrefail a Penisarwaun, lle bu i'r cyngor geisio gael gwared a graffiti anweddus, mae cais nawr ar dro i osod panel Newydd yn lle y rhai lle mae'r graffiti wedi bod.
Lon Castell – Yn dywyll un gyda'r nos roedd bwndel o goed wedi cael ei gadael ar ganol y lon ger fferm Castell. Ceisiodd y gyrrwr ffonio yr heddlu ar 101, a methu cael trwodd o gwbwl. Mae llawer o gwyno am y rhif yma ac opsiynau i bwyso a gorfod disgwyl. Llythyr o gŵyn i'r heddlu am hyn, ac ar ôl disgwyl am amser maith na does neb yn ateb chwaith.
Lon Bethel at bont Crawia – Y lon yn dywyll o droiad Llwyn Bedw tuag at Crawia. Dim ond wal gerrig ddwy ochor. Tybed oess modd holi am oleuo fel bod y waliau i'w gweld bob ochor i'r ffordd.





SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0300 123 3011
ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanberis

COFNODION CYFARFOD MIS IONAWR 2019:
Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fercher y 9fed o Ionawr, 2019 am 7.00 y.h.
1 CROESAWU: Yr Heddlu
Estynnwyd croeso i Nia J. Roberts, Swyddog Cefnogi Cymuned Heddlu Gogledd Cymru (HGC), sydd wedi ei lleoli yng Ngorsaf Heddlu Llanberis ers rhyw chwe mis. Cafwyd braslun o'i gwaith a'i chyfrifoldeb. Deallwyd ei bod, gydag eraill, yn gyfrifol am nifer fawr o bentrefi yn ymestyn o Rhiwlas draw i Drefor ac yn cynnwys y dyffryn hwn. Roedd hi'n teimlo ei bod wedi ei derbyn ac wedi gwneud cysylltiadau gwerthfawr â phobl ifanc yn arbennig a nifer o bobl eraill hefyd yn y cymunedau. Eglurodd nad oedd wedi gwario'r arian a glustnodwyd gan y Cyngor hwn ar gyfer gwaith ieuenctid a gofynnodd am i ni ddal gafael ynddo nes y bydd ei angen. Fel heddwas does ganddi ddim hawl i ddal cronfa o arian, ond bydd yn falch o ddefnyddio'r arian maes o law i dalu am weithgareddau eraill. Cytunwyd i gadw'r arian ar gyfer gweithgareddau a drefnir yn y dyfodol.
Roedd hi o'r farn, ar ôl siarad â pobl ifanc oedran Clwb Ieuenctid, fod galw am Glwb yn Llanberis. Holwyd tybed a oedd yna rywun a fyddai'n fodlon rhedeg y Clwb, ac os oedd, tybed a allai'r Cyngor gynorthwyo. Tybed a fyddai modd dod â'r Cyngor Sir a'r Ganolfan i mewn i gynorthwyo. Mynegwyd na fyddai'r Cyngor yn dymuno cyflogi'n uniongyrchol ond y byddai'n barod i gynorthwyo. Penderfynwyd cysylltu â Chyngor Gwynedd i weld a oedd modd ateb y galw mewn partneriaeth.
Daeth yn amlwg o'r prinder cwynion am gamymddwyn cymdeithasol yn ddiweddar fod cael Swyddog Cefnogi Cymuned yn gwneud gwahaniaeth i ymddygiad pobl ifanc. Diolchwyd i Nia Roberts am ei gwaith a dymunwyd yn dda iddi. Penderfynwyd anfon gair at Gomisiynydd HGC i ddweud fod penodi y swyddog wedi gwneud gwahaniaeth ac i bwyso arno i gadw a chefnogi swyddogion o'r fath. Ychwanegwyd fod sefydlogrwydd yn bwysig.
2 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:
Ward Padarn: Rhys ap Gwilym (Cadeirydd), Iwan Harding, Bethan Holding, Heather Lyn Jones, Kevin Morris Jones, Helen Sharp.
Ward Peris: Iola Owen, Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).
Ymddiheuriadau: Nicola Brown, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Trystan Thomas
3 DATGAN BUDDIANT:
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan wahanol benawdau.
4 CADARNHAU COFNODION
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 11eg o Ragfyr, 2018 fel rhai cywir.
5 MATERION YN CODI O'R COFNODION:
1. Toiledau a Parcio:
Cysylltwyd eto â Chyngor Gwynedd (CG) (Adran Economi a Chymuned), gan anfon copi er gwybodaeth i nifer o swyddogion eraill. Disgwylir ateb.
2. Y Nadolig a Goleuo'r Eglwys:
Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a'r Cynghorydd Sir a'i cynorthwyodd i dynnu'r goeden i lawr yn Llanberis. Roedd ymateb da wedi bod i oleuo'r ddwy eglwys eleni. Roedd y gost yr un fath i'r ddau adeilad, ac o fewn yr hyn a nodwyd yn flaenorol.
3. Biniau Sbwriel Gwirfoddol a CG:
Cafwyd ymateb i'r cais am fin sbwriel ar gyfer y maes parcio ger Mynydd Gwefru wrth ochr y safle bysus. Dywedodd JN y byddai'n trafod y mater gyda PS, y Rheolwr Gwasanaethau Stryd, a byddai modd symud wedyn y bin baw ci sydd nepell i ffwrdd fel na fyddai cyfanswm y biniau yn cynyddu. Wedi trafodaeth â'r Cynghorydd lleol adroddwyd fod bwriad i symud 3 o'r 10 bin (sydd yn y maes parcio ger y llyn) i lawr tuag at Y Glyn, ble mae prinder biniau ar hyn o bryd. Ychwanegodd y bydd gweddill y biniau ar y Stryd Fawr yn cael eu hadnewyddu yn y flwyddyn newydd.
4. Cylch yr Iaith - Canolfannau Iaith:
Cafwyd ymateb gan Bennaeth Addysg CG. Derbyniodd ein llythyr gan ddweud fod yr ymgynghori ynglŷn â dyfodol strwythur staffio y canolfannau yn parhau, ac nad oedd unrhyw benderfyniad wedi ei gymeryd hyd yma.
6 MATERION ERAILL:
1. Budreddi:
Adroddwyd fod carthion dynol yn cael ei ddarganfod yn weddol gyson mewn mannau. Yn ddiweddar cafwyd peth ohono yn nghysgod-fannau bws Dôl y Goeden. Penderfynwyd anfon gair at CG i holi am berchnogaeth y cysgod-fannau a adeiladwyd yn nyddiau cynllun trafnidiaeth Goriad Gwyrdd Eryri. Nid oes neb erioed wedi gofyn i'r cyngor hwn ofalu amdanynt er i un o swyddogion CG ofyn i ni eu glanhau y tro hwn. Roedd y Clerc wedi sicrhau'r swyddog nad ein cyfrifoldeb ni oedd y safle.
7 GOHEBIAETH:
1. CG - Cau Ffordd:
Rhybudd am fwriad i gau ffordd Lôn yr Eglwys ar y 23ain o Ionawr.
2. Gwynedd & Môn - Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd:
Ymgynghori ar ganllawiau cynllunio atodol mewn perthynas â Tai Fforddiadwy; Cynnal a Chreu Cymunedau Nodedig a Chynaliadwy; Cyfleusterau a Llety i Dwristiaid - Ymgynghoriad Pellach.
Bydd yr ymgynghoriad rhwng 13eg o Ragfyr 2018 a'r 31ain o Ionawr2019.
3. Stryd Fawr a'r Bont:
Cafwyd nodyn gan yr ymgymerwyr yn nodi y bydd goleuadau yn rheoli trafnidiaeth ar y bont o'r 7fed o Ionawr hyd nes y bydd y gwaith wedi ei gwblhau. Agorwyd y Stryd Fawr ychydig ddyddiau cyn y Nadolig a bu ar agor heb oleuadau tan y 7fed dros wyliau'r Nadolig. Mae'r cwmni yn gobeithio cwblhau'r gwaith mewn rhyw 4 wythnos.
4. Chris Williamson - Llif Barc (Flow Park):
E-bost yn nodi fod diddordeb o hyd mewn adeiladu Flow Park yn Llanberis. Adroddwyd y gellid ei ddefnyddio drwy'r flwyddyn ar gyfer beicio a sglefrio gan blant a phobl o bob oed. Mae'r rhesymu y byddai parc fel hyn yn llawer mwy defnyddiol, diogel a hygyrch i bawb a byddai iddo oes bur sylweddol o roi wyneb tarmac arno. Mae CW o'r farn y gellid adeiladu hwn ger Afon Hwch a defnyddio'r gwastraff a ddaw o addasu'r afon ar gyfer y Cynllun Bridio Torgoch i'w greu.
Dywedodd y Clerc iddo drafod y mater gyda'r llythyrwr gan awgrymu ei fod yn siarad gyda Rheolwr Parc Padarn ac yn ceisio ffurfio grŵp i weld beth oedd yn bosib. Soniwyd hefyd fod gwaith ymchwil ar y gweill mewn perthynas â thrac beicio yn Chwarel Glynrhonwy ac awgrymwyd y dylid holi a oedd CW yn ymwybodol o hyn rhag ofn fod yna ddyblygu syniadau.
5. Bwletin Byw'n Iach:
Rhannwyd gyda'r aelodau
6. Cytundeb Cyflog Cenedlaethol:
Nodwyd.
8 CYNLLUNIO:
Cyngor Gwynedd
- C18/1187/15/LL - Codi tŷ teuluol dau lawr - 10 Stryd Siarlot, Llanberis - dim sylw.
- C18/1205/15/CR - Addasiadau i ochr yr adeilad - Gwesty Fictoria, Llanberis. - dim sylw

9. DATGANIAD CYLLIDOL:
Craffwyd ar wariant y chwarter diwethaf a'r flwyddyn hyd yma. Roedd peth tan wario (toiledau)
10. CYLLIDEB a PRAESEPT:
Gosodwyd cyllideb ar gyfer y flwyddyn 2019 - 2020.
Ystyriwyd y gwariant presennol a sefyllfa'r gronfa erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Yn gyntaf penderfynwyd fod yn rhaid dechrau cronfa ar gyfer dyfodol mynwent y Cyngor. Penderfynwyd hefyd y bydd yn rhaid gwario ar oleuadau Nadolig newydd yn Llanberis yn unol â phenderfyniad a wnaed fis yn ôl. O ystyried y bydd yr Eisteddfod Genedlaethol yn ymweld a'r ardal yn 2021 penderfynwyd y dylid dechrau creu cronfa wrth gefn ar gyfer ei noddi fel y gellir neilltuo arian dros gyfnod o dair blwyddyn ariannol ar ei chyfer, 2019/20, 2020/21 a 2021/22. Byddai hynny wedyn yn ysgafnhau'r baich ariannol ar yr yr ardal. Gwnaed hyn yn llwyddiannus ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol 2005 ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2012. Mae sôn hefyd am ddechrau Clwb Ieuenctid lleol newydd yn yr ardal ac, wrth gwrs, mae cynnal a chadw toiledau ar agor drwy'r flwyddyn yn debyg o fod yn gyfrifoldeb ar y Cyngor os llwyddir i gael cytundeb â CG mewn perthynas ac incwm meysydd parcio. Felly er fod peth arbedion eleni am na lwyddwyd i gytuno ar y cytundeb toiledau teimlwyd fod angen cynyddu'r praesept o £24,000 i £28,000. Pan roddwyd y cynnig i'r bleidlais roedd cytundeb llwyr.
Mae cynnydd o £4,000 ar braesept y Cyngor hwn yn cyfateb i (£1.32 x 4) £5.28 ar dreth Cyngor Band D, sef cynydd o £0.44c y mis

ECO'r Wyddfa

# O'r Cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanrug

Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug 15fed o Ionawr 2019

Cae Chwarae Nant y Glyn
Adroddwyd fod cwyn wedi'i dderbyn gan yr heddlw am gyflwr y ffens oddi amgylch cae Nant y Glyn ac am fod y ffens i lawr mewn mannau yn golygu fod criw ifanc yn mynd yno yn hwyr yn y nos. Penderfynwyd fod aelodau am fynd draw i asesu'r broblem.

Y Clwb Ieuenctid
Adroddwyd fod un aelod o staff y clwb yn rhoi gorau i weithio dwy noson ac ei bod yn mynd i barhau i weithio un noson yn y clwb. Roedd hyn oherwydd iddi dderbyn swydd arall. Teimlwyd fod yr ieuenctid wedi colli allan am fod y clwb wedi bod yn hwyr yn agor a gobeithir y bydd Cyngor Gwynedd yn cynnal sesiynau iddynt fel yr addawyd yn y cychwyn.

Y Fynwent
Adroddwyd fod Pwyllgor y Fynwent wedi trafod y canlynol.
Ymestyn y Fynwent:
Nodwyd y bydd angen symud y ffens i ymestyn y fynwent a chysegru'r tir yn y flwyddyn ariannol nesaf. Hefyd bydd angen prisiau ar gyfer ymestyn y llwybrau.
Asesiadau Risg
Adroddwyd fod y Clerc wedi paratoi asesiadau risg ar gyfer y fynwent ac roedd y Pwyllgor wedi cytuno i fynd draw i weneud yr asesiadau.
Trefniadau Casglu Biniau
Nodwyd fod y biniau yn cael eu casglu yn reolaidd ond nad oedd manylion am y drefn o wahanu plastig a gwastraff naturiol wedi'i dderbyn.

Casglu Ysbwriel
Adroddwyd fod y diwrnod casglu ysbwriel wedi bod yn llwyddiannus iawn gyda tua 40 o bobl yn troi allan. Nodwyd fod nifer o bobl nad oedd wedi bod o'r blaen wedi troi fyny. Penderfynwyd cynnal diwrnod arall o gasglu ysbwriel ar yr 2 o Fawrth.

Praesept 2019 / 2020
Adroddwyd fod y Pwyllgor Cyllid wedi cyfarfod ac wedi mynd drwy'r gyllideb ar gyfer 2018 / 2019 ac yna sefydlu cyllideb ar gyfer 2019 / 2020. Nodwyd fod angen edrych ar oriau gwaith y Clerc a'r cyflog. Penderfynwyd gosod praesept o £50000 ar gyfer 2019 / 2020.

Adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones(Cyngor Gwynedd - Cwmyglo)
Ysgol Cwm y Glo
Disgwylir ffigyrau PLASC ac os na fydd disgyblion ar y rhestr, bydd yr Aelod Cabinet yn gwneud penderfyniad i gymryd y camau statudol i gau yr ysgol.
Bysiau
Arriva wedi gyrru gwybodaeth pellach ynglŷn a newidiadau i Amserlenni bysiau gan gynnwys gwasanaeth 88.

Adroddiad gan y Cynghorydd Charles Jones (Cyngor Gwynedd – Llanrug)
Stad Bro Rhyddallt
Yn dilyn cyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod cyflwr ffyrdd y stad, cytunwyd i lenwi'r tyllau mwyaf yn fuan ac i ail-wynebu ffyrdd y stad i gyd yn yr haf.
Stad Glanffynnon: Gwaith Dŵr Cymru
Yn dilyn cyfarfod safle gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod ail- wynebu'r ffordd unwaith mae Dŵr Cymru wedi gorffen eu gwaith, dywedodd y swyddogion y bydd Dŵr Cymru yn ail-wynebu bob ochr i'w 'trench' a bydd Cyngor Gwynedd yn gwneud gwaith sylweddol ar y darnau drwg yr ochr arall i'r ffordd. Gobeithir gwneud hyn yn y gwanwyn.
Ffordd Crawia
Mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu ail-wynebu y rhannau gwaethaf o'r ffordd rhwng Hafan Elan ac Ysgol Brynrefail yn y gwanwyn.
Ymgyrchoedd Baw Cŵn
Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn nifer o gwynion am gynnydd yn y nifer o achosion baw cŵn. Er mwyn ymateb i bryderon y gymuned mae'r Cyngor am gynnal cyfres o ymgyrchoedd sy'n cynnwys rhannau o Lanrug..
Y bwriad yw cael "foot patrol" gweledol iawn o gwmpas yr ardaloedd sydd o dan sylw - ac wedyn ail-ymweld yn eithaf rheolaidd.

Ceisiadau Cynllunio
Cais Cynllunio Cae'r Eglwys, Llanrug
Mae cynllun diwygiedig wedi ei gyflwyno sef Saith byngalo a dau dy "semi-detached". Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys trefn parcio gwell na'r cynlluniau blaenorol.

Diffibriliwr
Adroddwyd fod yr apêl wedi bod yn llwyddiannus dros ben a bod dau ddiffibriwlwr eisoes wedi eu gosod. Adroddwyd fod un arall yn cael ei osod yn Cwm y Glo a bod arian ar ôl i brynu un arall i'w osod yn y Sefydliad Coffa, Llanrug.

Gwefan gymdeithasol i'r Cyngor
Fe benderfynwyd i beidio creu gwefan gymdeithasol ar gyfer y Cyngor

Lleoliad cyfarfod mis Chwefror 2019
Penderfynwyd cynnal cyfarfod Chwefror yn swyddfa Menter Fachwen, Cwm y Glo

**Ydych chi'n chwilio i brynu neu rentu tŷ fforddiadwy?**

Cofrestr tai fforddiadwy ar-lein yw Tai Teg sy'n cynnig cartref fforddiadwy i bobl leol am bris llai na gwerth y farchnad, naill ai i'w rentu neu brynu. Ers sefydlu'r gofrestr, mae dros hanner cant o bobl wedi bod drwy'r broses o ddarganfod cartref i'w brynu neu ei rentu.

Am fwy o wybodaeth a'r sut i gofrestru er mwyn cael eich ystyried am gynllun perchnogaeth neu rhentu ewch i www.taiteg.org.uk

# Ar ben arall i'r lein



Mae'r byd pysgodfaol drwy Gymru fel petae mewn trwm-gwsg, 'Rydym oll fel cymdeithasau a perchenogion pysgota sy'n gwneud eu dyfroedd ar gael i'r cyhoedd yn ei chael hi'n anodd dros ben trefnu nid yn unig at y tymor ble 'rydym ar ei drothwy ond hefyd at y dyfodol. Sut mae marchnata rhywbeth ble mae'r dyfodol mor aneglur. Cyfeiro 'rwyf at y gwrandawiad yn y Drenewydd, Powys ble bydd y canlyniad o bosib yn cael effaith andwyol ar bysgota ein gwlad. Dechreuwyd yr achos yma ar 15ed Ionawr ac i redeg am rhyw ddeg diwrnod. Yn anffodus mae croes holi ac areithio gan far-gyfreithwyr yn cynyrchioli Cyfoeth Naturiol Cymru wedi achosi i bethau or-redeg gyda'r canlyniad fod popeth wedi ei ohirio a wedi ei ddynodi i ail ddechrau ar 5ed Mawrth, i redeg am, wel pwy a wyr hefo'r criw yma ynte. Un peth sy'n sicr yw ar derfyn yr achos bydd yr archwyliwr eisiau amser i hel ei feddyliau at ei gilydd a dod i rhyw fath o benderfyniad, wrth gwrs os bydd ei bendroni yn groes i ddymuniadau holl bysgotwyr y wlad – a fydd y rheolau yma yn cael ei cyflwyno ar tymor wedi hen gychwyn, sgwn i. Does dim wnaiff fy synnu ar sut mae rhain yn ymddwyn tuag at y rhai maent i fod yn cyd-weithio a hwy.

Mae tipyn o bryder yn ol pob golwg yn stalcio ar hyd goridorau'r senedd yn y bae 'na ar sut mae CNC yn cyflawni ei dyletswyddau, ond wrth gwrs gan nad ein llywodraeth sydd wedi creu yr anghenfil, does dim ewyllys ganddynt i ddod a nhw i drefn. Does ond eisiau edrych ar y llanastr ddigwyddodd drwy ymdrin a chytundebau coedwigaeth. Mae darllen barn yr archwiliwr ariannol yn ddigon i godi gwallt eich pen: cofiwch ein arian ni y cyhoedd sydd yn cael ei wastraffu, dim ots o gwbwl am hynny nac 'di. Does eisiau gras yn does!

Oes mae adegau pan mae rhywyn yn teimlo yn anobeithiol am ddyfodol pysgota yn lleol, ond diolch i'r drefn mae amgylchiadau yn buan newid, a bod mwy na llygedyn o oleuni ar y gorwel, ar hyn yn ddiweddar mae'n rhaid diolch i Dr Robin Parry, Llanberis a staff a disgyblion Ysgol Penisarwaun. Be di hyn tybed – wel 'rywf wedi cyfeiro nifer o weithiau am ein gobaith o gael rhedeg cynllun magu torgoch yn y fro, a diolch i Dr Parry mi wnaeth sicrhau flwyddyn yn ôl fod cyflenwad o rawn y pysgod yma yn cael ei deori yn ysgol Dolbadarn. Eleni mae wedi rhedeg cynllyn cyffelyb ar y cyd a Ysgol Penisarwaun. Cefais gyfle eleni i ymweld a'r ysgol a hefyd o fod yn bresenol pan rhyddhawyd y torgoch bychan i Lyn Padarn. Wel dyna ichi brofiad oedd gweld y brwydfrydedd a oedd ymysg y disgyblion a'r staff, fel yna yn union mae rhan o addysg i fod. Pam o pam fod swyddogion pysgodfeydd Cyfoeth Naturiol Cymru ddim yn sylweddoli y bydd, nid yn unig yn addysgol ond yn economaidd i'r fro buasai cael rhedeg cynllun fel hyn yn barhaol, hefyd wrth gwrs y cyhoeddusrwydd positif fuasai'n dod i CNC, Cyngor Gwynedd a'r criw na ym Mae Caerdydd. A mewn gwirionedd mae eisiau tipyn o rhywbeth positif ddod i ffordd rhain i gyd. Tarwch olwg ar www.sgll.co.uk am fanylion o be oedd yn mynd ymlaen.

Dros y blynyddoedd mae'r gymdeithas wedi bod yn eithriadol o ffodus o fod wedi cael cyd-weithio a nifer ffermwyr a thirfeddianwyr oedd gyda ei calonnau tuag at gadw pethau mewn dwylo lleol, ac i sicrhau fod hawliau pysgota ar gael i drigolion lleol ymhell wedi iddynt ymadael ar hen le 'ma. Yndi mae diolchiadau'r holl fro iddynt, bechod na fuasai pethau fel yna heddiw. Ynghlwn a llawer i hawl pysgota mi ddaeth rhyw adeilad neu lecyn o dir ein ffordd, diolch fod hyn wedi digwydd a bod llawer o'n aelodau wedi gallu gweld dros y gorwel flynyddoedd yn ôl. Y weledigaeth yma, gyda cymorth enfawr gan Gyngor Gwynedd, Cronfa Arianu Ewrop, Cyngor Cefn Gwlad ar Gronfa Tir Lenwi 'roedd yn bosib adfer a throi hen adeilad Melin y Faenol, Crawia fel deorfa a wedyn Melin y Cim ym Mhontllyfni yn lety hunan gynhaliol. A dyma lwyddiant ydi'r fenter yma wedi bod, heb y llif incwm o Botllyfni dros gyfnod tywyll problemau Llyn Padarn does dim dwywaith y buasai'r clwb wedi dioddef yn eithriadol o brinder arian a buasai cyflenwi ei dyledion wedi bod yn amhosib.

Ond diolch i'r drefn mae tipyn o dro wedi dod ar bethau, a thrwy hun mae'n bosib edrych ar fwy o uwchradddio ei eiddo, a thrwy hyn cynyddu ein llif ariannol – be sydd dan sylw medd rhai, wel fel y gwyddoch pan fo'r cyfle mi fyddai'n crwydro tipyn a gwmpas y lle, a un lle a dynodd fy sylw ddiwedd llynedd oedd Ardal y Llynnoedd. Bum yn cyfeiro at hyn yn rhifyn Nadolig diwethaf. Be arall dynnodd fy sylw yno oedd sut oedd cytiau cychod ar lan llyn Ullswater yn cael ei adnewyddu i greu lloches cychod ar y llawr isaf a llety hunan gynhaliol i bysgotwyr ac eraill ar y llawr cyntaf. Mi dynais tipyn o luniau a drwy droi a throsi drwy rhai rhaglenni ar y cyfrifiadur daeth y dyluniad uchod at y modd a'r sut y buasai hen doiledau gwesty'r Newborough yn Mhenllyn yn edrych.

Pan y dylunio Melin y Cim fe ymgynghorodd y gymdeithas gyda thrigolion Pontllyfni ar addasrwydd be oedd ar y gweill, a do fe gawsom gefnogaeth gryf drwy'r pentref. Felly fel cam cyntaf 'rydym yn gofyn drwy'r Eco beth yw teimladau'r fro ar y syniadau canlynol. Peidiwch a bod yn rhyw feirniadol dim on prentis dyluniwr ydwi!

Wel dyna ni am y tro, a cofiwch bydd y tymor wedi hen ddechrau erbyn y rhifyn nesaf. Pwy welai ar yr afon ar 3ydd Mawrth tybed?

Huw Price Hughes

# BOCSIO- NID CWFFIO- YM METHEL









Ganol y mis cafwyd sgwrs ddiddorol ar raglen Aled Hughes gyda Meilyr Emrys ein hanesydd chwaraeon lleol. Testun y sgwrs oedd John Graham Chambers, un o ardal Llanelli a wnaeth ei gyfraniad yn hanner olaf y 19 ed ganrif. Roedd o gefndir lled-gefnog, ac er â diddordeb mewn sawl camp, fel gweinyddwr nid chwaraewr y gadawodd ei farc. Roedd yn gysylltiedig â thenis, nofio ond yn fwy penodol bocsio. Ef yn benodol fu'n gyfrifol am roddi trefn ar reolau'r gamp gan symud o gyfnod y dyrnu ddi-fenyg at eu gwisgo yn orfodol. Tro pwysig arall oedd strwythuro hyd yr ymladd gan dorri y gystadleuaeth i nifer benodol o 'rounds' o amser priodol. Ond ni chaiff ei ddyledus sylw gan fe elwir y rheolau yma a drawsnewidiodd y gamp yn Reolau Ardalydd Queensberry. Mae'n ymddangos bod Chambers yn derbyn ambell ffafr neu nawdd gan Queensberry ac felly teimlwyd y buasai'n well cyhoeddusrwydd i ddatblygu'r fformat newydd yma trwy ddefnyddio enw Queensberry.

O fewn yr wythnos daeth estyniad i'r sgwrs pan gynhaliwyd gornest focsio yn y Neuadd Goffa ym Methel. Wn i ddim os bu rhagflaenydd i'r digwyddiad yma o'r blaen ond ymysg y dorf o 150 a ddaeth i gefnogi roedd ambell un ganol oed o'r pentref, yn amlygu profiad cynt o focsio neu dilyn bocsio. Ymysg chwarelwyr roedd bocsio, ceffylau a phêl-droed yn bynciau trafod poblogaidd a Tommy Farr, Jim Driscoll, Jimmy Wilde hyd gyfnod Johnny Owen a Cholin Jones yn aml destunol.

Clwb Bocsio Amatur Caernarfon oedd wedi trefnu'r noson. Roedd deg 'ffeit' ar y rhaglen gyda'r naw cyntaf yn amrywio o naw oed hyd 18 oed, ac yna gorffen gyda un gornest rhwng oedolion. Nid ar chwarae bach mae trefnu noson o'r fath. Rhaid wrth ddyfarnwyr i'r gornestau, tri dyfarnwr o amgylch y sgwar, amserydd, cyhoeddwr ac wrth gwrs yn fwyaf pwysig gwasanaeth meddyg. Un pwynt amlwg oedd y pwyslais a roddwyd bod yr offer gwarchod o'r safon uchaf a'r gwarchod y bocswyr yn ystod yr ornest. Roedd y meddyg wrth law os oedd unrhyw un o'r bocswyr yn teimlo unrhyw anhwylder wedi gornest. Rydym mor gyfarwydd bellach gyda dylanwad effeithiau cyfergyd mewn sawl camp e.e. Leigh Halfpenny.

Yn wyth o'r gornestau roedd aelod o'r clwb 'cartref' yn herio bocswyr o glybiau Llandudno, Y Dyffryn (Bae Colwyn), Bwcle, Bro Clwyd, Dinbych, Llangefni, Caergybi ac un pengoch Gwyddelig wedi mentro o glwb Y Wirral ar Lannau Merswy. Bydd rhai o'r bocswyr yma yn cystadlu ym Mhencampwrieth Cymru ym mis Mawrth. Mae trefn wrth baru y bocswyr. Ni cheir mwy na 2Kg o wahaniaeth yn y pwysau a bod ymgais i'r profiad o nifer o ornestau yr unigolion fod rhywbeth tebyg. Gwelwyd nifer o dechnegau o'r clasurol - jab, camu'n ol, jab, i'r dal dy dir yn waldio ei gilydd. Adloniant llwyr, a phob un o'r bocswyr yn hollol gartrefol o flaen torf. Fel twrnamentiau pêl-droed cynhelir nosweithiau cystadleuol fel hyn led-led y gogledd a thu hwnt yn wythnosol. Brid arbennig yw'r brid bocsio a theuluoedd yn amlwg wedi eu trwytho yno'n cefnogi. Mab yn dilyn tad i'r cylch. Cyn focsiwyr yn aros yn y gamp fel hyfforddwyr. O sgwrsio, diddorol oedd gwrando ar ambell stori am ddatblygiad rhai bocswyr ifanc trwy ymuno â chlwb. 'Cadw un oddi ar y stryd ac i ffwrdd o ambell demtasiwn' oedd un sylw. 'Wedi meithrin hunan hyder', oedd sylw arall. 'Sianelu egni i bwrpas' oedd un treiddgar arall.

Os oes diddordeb mewn ymuno mae Clwb Caernarfon yn cyfarfod ddwy waith yr wythnos yn hen gegin ysgol Segontiwm tu cefn i Lŷs y Goron Caernarfon. Bydd yr hyfforddwyr Ian Owen, John Florence a Sion Owen yn falch o rannu eu profiad. Barn y swyddogion oedd bod hon yn noson lwyddianus a synnwn i ddim na ddont yn ôl.

# Un funud fach ...

### Y DI-DDEALL

Roeddwn i'n arfer gwylio This Week ar nos Iau nes i mi flino ar arddull y cyflwynydd Andrew Neil. Ac felly fyddaf fi ddim yn colli'r rhaglen pan ddaw i ben yn ôl a gyhoeddwyd yr wythnos ddiwethaf. Ond rwy'n dal i wylio Question Time a ddarlledir o'i blaen bob wythnos, er mai profiad rhwystredig fu'r gwylio hwnnw ers tro byd am fod mwyafrif y cwestiynau'n ymwneud â Brexit. Nos Iau, Mr Jacob Rees-Mogg oedd un o'r panelwyr. Ac roedd o'n ddychrynllyd.

Mae Mr Rees-Mogg yn medru bod yn ddychrynllyd o nawddoglyd neu'n ddychrynllyd o ddiflas. Ond y tro hwn dim ond dychrynllyd oedd o, gan iddo yn wirioneddol godi braw ar lawer o bobl gyda'i sylwadau am Ryfel y Böer yn ne Affrica dros ryw dair blynedd ar droad yr Ugeinfed Ganrif. Y nesaf peth i ddim a wn i am Ryfel y Boer, ac mae'n ymddangos fod yr un peth yn wir am Mr Rees-Mogg er iddo swnio'n awdurdodol iawn. Rhwng 1899 a 1901 cadwyd oddeutu 200,000 o bobl mewn gwersylloedd rhyfel gan y Prydeinwyr. Y Böer (disgynyddion mewnfudwyr o'r Iseldiroedd a'r Almaen a Ffrainc) ynghyd â thrigolion brodorol deheudir Affrica oedd y rhain.

Yr hyn sy'n ddychryn i mi, ac i bobl sy'n gwybod llawer iawn mwy na mi a Mr Rees-Mogg am y rhyfel hwnnw, yw ei fod yn dadlau fod y Prydeinwyr wedi llenwi'r gwersylloedd hyn â gwragedd a phlant er mwyn eu gwarchod a'u bwydo. Bu farw oddeutu 48,000 yn y gwersylloedd hynny, ac roedd hyd at 80% ohonynt yn blant dan 16 oed. Ond roedd Mr Rees-Mogg yn mynnu mai llefydd i warchod pobl oedd y rhain. Roedd yn ymwrthod â'r posibilrwydd bod y Llywodraeth a'r Ymerodraeth Brydeinig i'w beio mewn unrhyw ffordd am y miloedd a fu farw o newyn yn y gwersylloedd. Nid oedd mwy o farwolaethau yn y gwersylloedd nag yn Glasgow yn yr un cyfnod, meddai Mr Rees-Mogg yn hamddenol. Mae'n ddirgelwch pam y bu iddo gyfeirio at Glasgow mwy na'r un ddinas arall. Mae'n sicr y bu farw nifer fawr o bobl a phlant yno oherwydd tlodi a chyflwr gwael y tai ac ati, ond peth od iawn oedd clywed gwleidydd yn defnyddio trueni'r sefyllfa honno i gyfiawnhau'r marwolaethau yn y gwersylloedd.

'Mae'n rhaid i chi ddeall yr hanes,' oedd cri Mr Rees-Mogg, ac yntau'n amlwg heb ddechrau ei ddeall. Mor debyg ydyw i'r bobl y soniodd Paul amdanynt wrth Timotheus, 'Nid ydynt yn deall dim ar eu geiriau eu hunain, na chwaith ar y pynciau y maent yn eu trafod mor awdurdodol' (1 Tim. 1:7). Peth ofnadwy yw clywed pobl yn doethinebu am bob math o bynciau mewn anwybodaeth. Ie, gwirioneddol ddychrynllyd yw bod pobl sydd mor barod i ystumio ffeithiau mewn safle mor ddylanwadol. Ac o gofio geiriau Paul, mor bwysig ydyw i bawb sy'n trafod y Ffydd a'r Efengyl a'r Beibl fod yn ddigon gostyngedig i geisio goleuni Duw, rhag i ninnau ymwneud â'r pethau hyn heb eu deall.

JOHN PRITCHARD

## Pigion Byd Natur

***Asafoetida, sef Asiffeta!***



Asiffeta. Diawch erio'd, beth aflwydd ydy' o? Ie! gwm wedi'i wasgu o'r gwreiddiau, a berthyn yn ddigamsyniol i blanhigion Ferula, sy'n tyfu welwch chwi yng ngorllewin Afghanistan, yr India, ac hefyd Iran. Ni fues i ran tama'd corff (dwn i ddim amdani o gwbl yn feddyliol) erio'd yn troedio y gwledydd a enwyd.
Ia! asiffeta!
Gyda llaw, ceir enwau eraill arno ac yn eu plith y canlynol: bwyd y duwiau, cachu'r diafol a gwm drewllyd.
Oes! y mae i'w wreiddiau arogleuon cryfion!
Gwyddai fy hen nain Ty'n Bonc, a oedd bryd hynny yn dyddyn ym mhlwyf Llandecwyn, Meirionnydd, am fodolaeth asiffeta, a bod yn perthyn i'w wreiddiau rinweddau meddygol. Ni fuaswn yn gwybod dim byd oll amdano ychwaith ac mi rydw i'n dra-dyledus i'm diweddar fam, sef Menna Ifa's, Ty'n Bonc, am yr hanesyn a ganlyn. Yno, i'r tyddyn deu-fuwch, dau gi sbanial, deuthum, meddan nhw i mi, yn faban; hynny wedi gada'l am byth ochra' Sharoe Green, ar bwys Preston, Sir Gaerhirfryn, Lloegar. Roeddwn yn faban a wylai'n ddi-baid a thra wrthi'n nadu crio roedd aer wedi casglu yn fy stumog a finna'n diodda o'r colig. Ond deallai Jên, fy hen Nain hyn i gyd! Oni fuodd pedwar ar ddeg plentyn dan ei gofal!
'Yli!' meddai hi wrth mam, 'rhwbia rywfaint o'r asiffeta 'ma o gwmpas botwm bol 'r hen beth bach!'
A dyna wnaed! Ond ni chofiaf ddim byd am y digwyddiad!
Gwella?
Do!
Pwy fuasai'n meddwl bod gwreiddiau'r planhigyn Ferula, sy'n tyfu yng ngorllewin Afghanistan a rhai mannau yn Iran a'r India, wedi bod yn falm ar glwyf, ac wedi rhoi llwyr wellhad imi?
'Hen beth drewllyd ar y naw ac atgas ran ei ogla'.
Be' d'wed?
Bwyd y duwiau ynte, cachu'r diafol, a blwmin gwm drewllyd.
Twt! Twt! mor amddifad-wag fyddai fy modola'th heb Nain Ty'n Bonc, a'm mam, a'r -ie! ie! yr asiffeta!

Premier
Y Storfa Premier Llanrug
Sgwar Llanrug
01286-673108
Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, Swyddfa Bost
Llun-Sadwrn 6.30am-9pm Sul 8am - 9pm



# Taith i Nunlle



Bron i ddeg ar hugain o gerddwyr, aelodau o Glwb Mynydda Cymru,wedi mentro i Lanberis ganol Chwefror, a hithau'n addo tywydd tipyn cynhesach. Cerdded drwy Goed Doctor nes cyrraedd Lôn Clegir a dechrau dringo. Aros ger Tŷ Du, sy'n prysur adfeilio, a chlywed am y cysylltiadau â Thlodion Rhuthun, Ffowc y dyn cryf a'r brodyr Dewi Arfon a Gutyn Arfon. Cyrraedd Beudy'r Geifr a phendroni pam fod ci yn gyndyn o fynd i mewn iddo!

Troi oddi ar y lôn ar lwybr cyhoeddus – nad oes fawr o ddefnydd arno – a dechrau dringo go iawn. I fyny heibio'i domennydd sbwriel llechi a thyllau chwarel rhyfeddol o ddwfn a serth; amryw wedi eu hamgylchu â ffens oherwydd y peryglon, ond yn gwneud gwarchodfeydd natur anhygoel. Mân chwareli llechi ar dir oedd yn bennaf ym meddiant Stad Glynllifon, ond yn cael eu gweithio gan amryw unigolion yn talu rhent am y fraint o gloddio a chanran o'r elw ar bob tunnell o lechi. Chwareli Cae'r Meinciau a Thy'n y Mynydd ar y chwith a rhai Glynrhonwy ar y dde. Dal i ddringo tir agored a gwlyb mewn mannau nes cyrraedd olion yr hen farics ym Mhen Gwaith a Bwlch y Groes. A bu'n rheidrwydd stopio am baned.

Trwy giât Bwlch y Groes – a chyrraedd Nunlle. Enw ar ddarn o dir oedd yn ôl pob son wedi 'anghofio' ei gynnwys yn unrhyw un o'r tri phlwyf oedd yn ffinio â'i gilydd yma ers talwm: Llanberis, Llanrug a Llanbeblig. Do, cafodd pawb y fraint o ddweud iddynt gerdded a dringo am ddwyawr a chyrraedd Nunlle!

Cinio, a chysgod rhag y gwynt (mileinig braidd) mewn adfeilion yn perthyn i hen chwarel Cefn Du. Ymlaen i gopa Cefn Du, heb anghofio ymweld â chamfa arbennig sy'n arwain i lwybr sydd wedi hen ddiflannu dan drwch o rug. Cyrraedd y copa ac aros am ychydig i gael hanes Gorsaf Radio Marconi a sefydlwyd ar lethrau'r mynydd rai blynyddoedd cyn y Rhyfel Byd Cyntaf. Mwynhau'r golygfeydd i'r gogledd a dros Ynys Môn.

Disgyn ar lwybr gwahanol a heibio'r Chwarel Fawr sydd wedi ei chlustnodi ar gyfer cynhyrchu trydan, gan ddefnyddio'r un sustem a Gorsaf Bwer Dinorwig. Croesi Nunlle unwaith eto a dilyn yr hen ffordd o Fwlch y Groes i lawr y llethrau am Lanberis. Gweld olion y tirlithriad a fu'n achos y llifogydd difrifol yn y pentref chwe mlynedd yn ôl, a phasio'r cynllun trydan cymunedol (Ynni Padarn-Peris) a sefydlwyd gyda buddsoddiadau unigolion lleol rai blynyddoedd yn ôl.

Cyrraedd y pentref a mwynhau paned (arall) cyn gwasgaru a pharatoi am y daith nesaf mewn mis.

# BETH TYBED?

Ie, beth oedd y sgôr yn y gêm rhwng Cymru a Lloegr. Rhaid oedd sgwenu hyn o lith ddechrau wythnos y gêm. Cymru wedi ennill dwy wedi dau berfformiad simsan, a Lloegr wedi ennill dwy yn chwarae fel tîm ysbrydoledig. Cawn weld mis nesaf – a'i llifeiriant geiriau neu 'callo dawo'. Cwm Rhondda neu Sweet Chariot.

# YMFALCHIO

Ie, dyna fy mhrofiad o ymweld â maes pêl-droed Mynydd Llandegai am y tro cyntaf. Yr achlysur oedd gêm 3ydd rownd Cwpan Mawddach rhwng Mynydd a Llanrug. Â Mynydd wedi ennill ar Eithin Duon yn y gynghrair roedd pwyth i'w dalu yn ôl. Gyda'r gwynt a'r smwclaw yn llifo i lawr o'r Marchlyn roedd yr elfennau yn heriol. Ond cafwyd chwip o gêm. Yn wir, fe chwaraeodd y ddau dîm yn well tra'n herio'r elfennau. Mwy pwyllog, gwell cefnogi a phasio slic. Annodd iawn oedd rheoli y bêl a'r gwynt yn ei chario. Syndod nad oedd mwy o ergydion am y gôl, ond pan ddeuai'r ergydion roedd perfformiadau y ddau gôl-geidwad yn benigamp. Nid ydynt y talaf o ran maint ond maent yn ddewr a'r gallu i arbed yn elfen gref o'u chwarae. Hefyd y ddau amddiffynwr canol, Terry Williams (Llanrug), seren y gem, a'r Monwysyn Dylan Williams cefnwr addawol Mynydd. Heb os, bydd timau uwch yn y pyramid yn cadw golwg ar ddatblygiad y chwaraewr ifanc dawnus, hyderus yma. Hen ben ar ysgwyddau ifanc yn sicr. Yn y dorf roedd is-reolwr clwb Dinas Bangor, yno'n sicr i fwrw golwg ar yr ambell chwaraewr ifanc addawol. Ai hyn yw dechrau polisi newydd clwb y ddinas trwy ddatblygu tîm lleol ar gyfer y dyfodol?

2-1 i Lanrug oedd y sgôr derfynol mewn gêm agos iawn, Llion Jones gyda'r gôl allweddol ar yr awr. Ond ar yr ymfalchio roeddwn i eisiau pwysleisio. I hogiau Mynydd a'r gymuned yn bennaf. Wedi bod yn dim crwydrol, diolch i grantiau'r Loteri a'r Chwarel gerllaw creu cartref allan o gors. Wyneb da i'r cae. A'r gefnogaeth. Croeso wrth y giat a'r cwt panad. Criw lleol da yn cefnogi'r ddau dîm. Awyrgylch gêm ddarbi go iawn. A reff o Lanberis. Braf oedd clywed " Ty'd laen Cwil!" yn hytrach na'r " C'mon reff " arferol. Mae'r awyrgylch Gymreig yma yn codi calon. Braf oedd gweld nifer o 'hen chwaraewyr' yno yn y dorf, rhai yn cefnogi eu meibion ar y cae. Cefais bnawn difyr yn hel atgofion. Braf gweld hefyd criw o hen gefnogwyr Bethesda yno yn cefnogi Mynydd. Hwy bellach yw Tîm y Dyffryn dybiwn i. Diolch i'r ddau dîm am gêm llawn ymdrech i'n cynhesu ar bnawn Sadwrn oer.

# Chwaraeon

## LLWYDDIANNAU – A PHROFIAD









Oherwydd trafferthion CPD Dinas Bangor trosglwyddwyd Twrnament Pêl-droed y Dragon Academy i Borthaethwy. Danfonodd CPD Ieuenctid Bethel bedwar tîm – dan 6, dan7, dan 8 a dan 9.

Roedd y tîm dan 6 dan hyfforddiant Mark Allen yn mentro am y tro cyntaf. Ymdrech a mwynhad, a'r wên o dderbyn medal a thystysgrif ar y diwedd yn adrodd cyfrolau. Cafwyd un cŵyn gan un o'r chwaraewyr. " Pam mae Mark yn cael yfed coffi i g'nesu a ni yn oer – dydy Klopp ddim yn gwneud hyn!" O enau plant bychain.

Cafwyd perfformiadau da gan y tîm dan 7. Enillwyd tair gêm ac un gyfartal ond er y fath ymdrech ni lwyddwyd i gyrraedd y rownd derfynol. Yr un fu hanes y tîm dan 8. Eto ennill yn rheolaidd yn y gemau grŵp ond yn methu allan ar y rownd gyn-derfynol ar wahaniaeth goliau.

Aeth y tîm dan 9 i'r copa a dychwelyd adref gyda'r tlws. Yn eu wynebu yn y gemau grŵp roedd timau cryf Brickfield ( Wrecsam), Treffynnon, Dyserth, a West Gorton ( Manceinion). Enillwyd pob gêm. Yn y rownd gyn-derfynol trechwyd Bae Cemmaes ( Môn) o 3-0. Chwip o gêm oedd y rownd derfynol a trechwyd West Gorton am yr ail waith 2-0. Carfan gref yw hon, a phwysig fydd eu cadw gyda'i gilydd drwy'r oedrannau.

## Genod Hoci nôl ar eu Gorau

Mae Merched Hoci Caernarfon wedi cael tro ar fyd, yn ennill eu dwy gêm ddiwethaf yn erbyn Pwllheli (4-0) a'r Trallwng (2-1) yn Adran 1 Cynghrair Hoci Merched Gogledd Cymru.

Roedd hi'n braf gweld y tîm yn chwarae nôl ar gae bob tywydd Ysgol Brynrefail yn Llanrug ddydd Sadwrn, 16eg o Chwefror, ar ôl blynyddoedd o chwarae ym Mhenygroes. A braf felly yn eu gweld yn dod yn fuddugol yno yn erbyn y Trallwng. Er i'r gwrthwynebwyr sgorio gyntaf, daeth genod dre yn ôl gyda Rhiannon Jones yn taro'r bêl i'r gôl mewn cornel fer cyn hanner amser.

Yn yr ail hanner cafwyd anaf gan bêl i wyneb Sara Roberts ond dychwelodd i'r cae a sgorio un arall i Gaernarfon mewn cornel fer. Manon Lloyd Williams oedd Chwaraewraig y Gêm gydag aelodau ifanc y tîm, Natalie, Catrin ac Elin hefyd yn cael gem arbennig a sawl arbediad gan Gwen yn y gôl. Dyfodol disglair i'r tîm!

